Rhoes y Cadeirydd groeso i Mr. Adrian Gibbs, Euromia Research & Consulting, Ms. Kelly Thomas, WRAP Cymru a Mr. Andrew Dutton, Biffa Municipal i'r cyfarfod. Dywedodd hefyd fod holl Aelodau'r Cyngor Sir wedi cael gwahoddiad i fynychu'r Pwyllgor Sgriwtini ar gyfer y drafodaeth ar yr eitem hon.

Dywedodd y Prif Swyddog Rheoli Gwastraff fod Gwasanaeth Rheoli Gwastraff Ynys Môn bellach wedi cyrraedd pwynt tyngedfennol lle bydd angen newid sylfaenol yn y modd o ddarparu'r gwasanaeth i gwrdd â thargedau tymor hir. Mae heriau mawr yn bodoli o ran cwrdd â thargedau ailgylchu statudol a bennwyd gan Lywodraeth Cymru (LlC) i'r dyfodol ac yn sgil yr angen i weithredu gwasanaethau'n fwy effeithlon oherwydd toriadau yn y gyllideb. Mae casglu a phrosesu defnyddiau i'w hailgylchu yn llawer rhatach na chasglu a chael gwared ar / trin gwastraff gweddilliol 'bag du'. Felly, os oes modd cyflwyno systemau casglu newydd lle gellir cyfyngu ar lefel y gwastraff gweddilliol mewn rhyw ffordd, bydd hynny'n golygu y byddai modd ailgylchu mwy o wastraff a gostwng costau'n gyffredinol.

Mae LlC wedi pennu targedau statudol ar gyfer awdurdodau lleol i ailgylchu, ailddefnyddio ac adennill gwastraff; sef 58% o wastraff cyhoeddus ar gyfer 2015/16; 64% ar gyfer 2019/20 a 70% ar gyfer 2024/25. Gall methiant i gwrdd â'r targedau statudol hyn olygu bod LlC yn rhoi dirwy o £200 y dunnell yn seiliedig ar nifer y tunelli y mae'r awdurdod yn brin o'r targed statudol a restrir. Yn achos Ynys Môn, mae hyn yn golygu y byddai'n rhaid i'r Cyngor dalu oddeutu £80k mewn dirwyon am bob 1% y mae'n brin o'r targed ailgylchu. Amcangyfrifir bod perfformiad Ynys Môn o ran ailgylchu ar hyn o bryd yn 55% ar gyfer 2015/16.

I sicrhau'r cyfle gorau posib o ran cwrdd â'r targed ailgylchu statudol o 58% ar gyfer 2015/16, mae'r Adain Rheoli Gwastraff ar hyn o bryd yn cludo rhywfaint o'i wastraff gweddilliol i'w drin yn hytrach na defnyddio safleoedd tirlenwi, lle mae rhywfaint o'r deunydd 'pen pellaf', sef y lludw a gynhyrchir yn sgil llosgi'r gwastraff mewn llosgydd yn cael ei gyfrif tuag at gyfraddau ailgylchu. Gobeithir y bydd y dull hwn yn sicrhau y gellir cwrdd â'r targed o 58% ar gyfer 2015/16.

Dywedodd y Prif Swyddog Rheoli Gwastraff hefyd fod Swyddogion y Cyngor wedi bod mewn trafodaethau gyda Rhaglen Newid Cydweithredol WRAP Cymru (a gyllidir gan LlC i gynorthwyo awdurdodau lleol i ddylunio a darparu gwasanaethau ac i lunio strategaethau), Biffa a swyddogion o awdurdodau lleol eraill yng Nghymru dros y 12 mis diwethaf i drafod pa opsiynau sydd ar gael i sicrhau'r cynnydd mawr sydd raid wrtho yn y cyfraddau ailgylchu. Mae'r rhan fwyaf o gynghorau ar draws Cymru yn edrych ar opsiynau i gyfyngu ar wastraff gweddilliol ac mae amryw ohonynt wrthi'n cyflwyno biniau llai neu'n casglu gwastraff gweddilliol bob 3 wythnos neu wedi gwneud hynny'n barod. Mae nifer gynyddol o awdurdodau lleol hefyd yn ystyried casglu gwastraff gweddilliol bob 4 wythnos.

Gan ddefnyddio cyllid gan WRAP Cymru, penodwyd ymgynghorydd allanol profiadol (Eunomia) i gynnal dadansoddiad manwl o'r opsiynau mewn perthynas â systemau casglu gwastraff ar ochr y ffordd ac i benderfynu beth fyddai'r costau a'r adnoddau y byddai eu hangen os byddai lefel y gwastraff gweddilliol yn cael ei chyfyngu mewn rhyw fodd. Sefydlwyd gweithgor ar y cyd i nodi rhai egwyddorion allweddol y byddai'n rhaid eu mabwysiadu fel rhan o unrhyw waith i fodelu gwerthusiadau newydd o'r opsiynau ar gyfer gwneud unrhyw newidiadau i'r system casglu gwastraff.

Rhoes Mr. Adrian Gibbs, Euromia Research & Consulting a Ms. Kelly Thomas, WRAP Cymru gyflwyniad i'r pwyllgor ar y gwaith a wnaed ar werthuso'r opsiynau ar gyfer casglu gwastraff yn Ynys Môn. Roedd tabl yn dangos crynodeb o ganfyddiadau'r holl Werthusiadau o'r Opsiynau ynghlwm wrth adroddiad fel Atodiad 1.

Ystyriodd y Pwyllgor yr adroddiad a gwnaed y sylwadau a ganlyn:-

- I gwrdd â thargedau statudol LlC mewn perthynas ag ailgylchu, mae angen blychau mwy/blychau eraill ar gyfer ailgylchu deunyddiau ynghyd â phlastigau cymysg eraill;
- Dywedodd rhai aelodau fod pobl yn prynu gormod o fwyd, h.y. 'prynu un/dau, cael un am ddim' ac yna'n taflu'r bwyd nad ydynt ei angen;
- Problemau posibl yn achos pobl sy'n byw mewn fflatiau ac sy'n defnyddio cyfleusterau gwastraff cymunedol;
- Posibilrwydd y ceir gwared ar wastraff yn anghyfreithlon. Dywedodd y Swyddogion nad yw awdurdodau lleol eraill sydd wedi cyflwyno gwasanaeth casglu gwastraff pob tair wythnos wedi gweld unrhyw gynnydd yn lefel y gwastraff y cafwyd gwared arno'n anghyfreithlon yn eu hardaloedd;
- Pryderon ynghylch y posibilrwydd o bla os bydd gwastraff gweddilliol yn cael ei gasglu pob 4 wythnos;
- Dywedodd rhai aelodau fod eu hetholwyr wedi cysylltu gyda nhw yn gwrthwynebu'r cynnig i wagio biniau duon bob 4 wythnos oherwydd bod y Cyngor yn cynnig cynnydd o 4.5% yn y Dreth Gyngor ar gyfer 2015/16;
- Mae angen i archfarchnadoedd becynnu llai ar fwyd. Roedd y Swyddogion yn cytuno fod angen rhoi sylw i hyn ac ystyriwyd bod siopau yn delio gyda'r materion hyn;
- Byddai aelwydydd gyda theuluoedd mawr yn ei chael yn anodd ymdopi gyda'r cynnig i gasglu gwastraff gweddilliol 'bin du' pob 4 wythnos. Dywedodd y Swyddogion y byddai'r opsiwn i ddarparu blychau ailgylchu ychwanegol yn cael ei drafod gyda Biffa fel rhan o unrhyw amrywiad i'r contract;
- Angen rhoi sylw i gyfleusterau ar gyfer clytiau. Dywedodd y Swyddogion y byddai clytiau'n cael eu casglu bob pythefnos, sef yr hyn sy'n digwydd ar hyn o bryd;
- Mynegwyd pryderon ynghylch pobl yn byw yn y cefn gwlad sy'n gorfod danfon eu biniau trwm i bwyntiau casglu dynodedig. Dywedodd y Swyddogion fod gwasanaeth 'nôl a danfon' ar gael ar gyfer pobl mewn oed a phobl a chanddynt broblemau iechyd;
- Rhaid rhoi sylw blaenllaw i addysgu pobl mewn perthynas ag ailgylchu a'r dirwyon y gellir eu codi ar gyfer cael gwared ar wastraff gweddilliol er mwyn cwrdd â thargedau ailgylchu LlC. Mae angen mynd at y Cynghorau Tref a Chymuned a'r Cynghorau Ysgol. Dywedodd y Swyddogion fod 2 Swyddog dynodedig wedi cael eu cyflogi i fynychu ysgolion a sefydliadau eraill i sôn am bwysigrwydd ailgylchu;
- Gofynnwyd cwestiynau ynghylch y posibilrwydd o ddefnyddio Canolfan Ailgylchu Gwastraff Domestig Gwalchmai i ddelio gyda mwy o ddeunyddiau y gellir eu hailgylchu. Dywedodd y Swyddogion y byddai'n rhaid gwneud gwaith addasu yng Nghanolfan Ailgylchu Gwalchmai i ddelio gyda'r gwaith ailgylchu ychwanegol (fel y nodir yn Atodiad 1);

- Gofynnwyd cwestiynau ynglŷn â'r cynnydd ym mhoblogaeth yr Ynys oherwydd mewnlifiad gweithwyr i adeiladu Wylfa Newydd. Dywedodd y Swyddogion nad yw'r mater hwn wedi cael ei gynnwys yn yr adroddiad i'r Pwyllgor ond bydd angen codi'r mater gyda Pŵer Niwclear Horizon yn y man;
- Gofynnwyd am dabl yn dangos y ffigyrau ailgylchu ar gyfer pob cymuned.

Yn dilyn trafodaethau maith, **PENDERFYNWYD argymell i'r Pwyllgor Gwaith :-**

- **Mae Opsiwn 2a, sef casglu gwastraff gweddilliol 'bin du' bob tair wythnos yw'r opsiwn sy'n cael ei ffafrio gyda hynny'n cynnwys darparu un blwch ailgylchu ychwanegol ar gyfer ailgylchu pellach;**

- **Cymeradwyo'r argymhellion canlyniadol yn yr adroddiad fel y gellir gweithredu'r opsiwn i gasglu gwastraff bob tair wythnos.**

**GWEITHREDU: Bod argymhelliad y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio'n cael ei gyfeirio i'r Pwyllgor Gwaith ar gyfer ei ystyried yn y cyfarfod a gynhelir ar 30 Tachwedd, 2015.**

**3 GALW GOFAL - GWASANAETH RHANBARTHOL GOGLEDD CYMRU AR GYFER MONITRO GALWADAU**

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion ar yr uchod.

Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Oedolion mai prosiect cydweithio anstatudol sy'n cael ei gynnal o fewn fframwaith cyfreithiol yw Galw Gofal – Gwasanaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru ar gyfer Monitro Galwadau. Mae'r cydweithio'n seiliedig ar fodel lle mae yna awdurdod arweiniol ac mae'r swyddogaethau i gwrdd ag ymrwymiadau'r cytundeb, darparu'r gwasanaeth, gan gynnwys darparu gwasanaethau cymorth TG, Cyllid, Cyfreithiol ac ati, wedi cael eu dirprwyo i Gonwy gan ddefnyddio pwerau yn Adran 101 Deddf Llywodraeth Leol 1972, Adran 2 Deddf Llywodraeth Leol 2000 ac Adran 47 Deddf Gofal 1990. Dyddiad cychwyn y cytundeb oedd 1 Mehefin 2011; mae cyfnod cychwynnol y cytundeb yn bum mlynedd a ddaw i ben ar 31 Mai, 2016.

Mae'r gwasanaeth Galw Gofal yn monitro'r gwasanaethau canlynol :-

- Larymau Cymdeithasol/Teleofal/Teleofal Symudol gyda Thraciwr GPS;
- Teleiechyd, monitro arwyddion bywyd;
- Gwasanaeth Galwadau Ffôn i weld a yw pobl yn iawn – Galw rhagweithiol;
- Gweithio unigol a thracio GPS;
- Cardiau Gofalwyr;
- Gwasanaeth Tu Allan i Oriau Arferol gan gynnwys Gwasanaethau Tai a chynnal a chadw eiddo, Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol EDT ac ati
- Adfer ar ôl Trychineb a Pharhad Busnes

Nodwyd bod cyfanswm nifer y cysylltiadau ar ddiwedd mis Mawrth 2015 yn 21,436 gan gynnwys 50 o gwsmeriaid Teleiechyd; twf 10% yn nifer y cysylltiadau ers cychwyn y cynllun yn 2011. Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy sy'n cymryd

galwadau'r ganolfan alwadau yn ystod y dydd gyda Chyngor Sir Ynys Môn yn darparu'r gwasanaeth yn ystod y nos.

Roedd Aelodau'r Pwyllgor o'r farn bod Gwasanaeth Monitro Galwadau Galw Gofal yn wasanaeth gwerth chweil ac y dylid adnewyddu'r cytundeb rhwng y partneriaethau.

**PENDERFYNWYD cefnogi'r argymhellion yn yr adroddiad i barhau gyda'r cytundeb partneriaeth y tu draw i'r cyfnod cychwynnol o 5 mlynedd.**

**GWEITHREDU : Nodi bod y mater yn cael ei gyfeirio i'r Pwyllgor Gwaith i'w drafod.**

**4 BWRDD RHAGLEN TRAWSNEWID GWASANAETHAU PLANT**

Cyflwynwyd – adroddiad y Swyddog Sgriwtini mewn perthynas â chais a dderbyniwyd gan y Gwasanaethau Plant am gynrychiolaeth o blith yr Aelodau Sgriwtini i wasanaethau ar y Bwrdd Rhaglen arfaethedig ar gyfer y Gwasanaethau Plant.

Ar 23 Hydref, trafodwyd y cais yn y Fforwm Cydlynu Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgorau Sgriwtini a thybiwyd ei bod yn briodol penodi Is-gadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol, y Cynghorydd G.O. Jones fel cynrychiolydd yr Aelodau Sgriwtini a'r ail gynrychiolydd fyddai Arweinydd yr Wrthblaid, y Cynghorydd Llinos M. Huws.

**PENDERFYNWYD enwebu'r Cynghorydd G.O. Jones, Is-gadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'r Cynghorydd Llinos M. Huws, Arweinydd yr Wrthblaid i wasanaethau ar y Bwrdd Rhaglen Gwasanaethau Plant.**

**GWEITHREDU : Fel a nodir uchod.**

Daeth y cyfarfod i ben am 4.30 p.m.

**Y CYNGHORYDD D.R. HUGHES**
**CADEIRYDD**

## 3 COFNODION

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Medi 2015.

## 4 BWRDD IECHYD PRIFYSGOL BETSI CADWALADR

Rhoes y Cadeirydd groeso i Mrs. Ffion Johnstone, Mr. Andrew Jones, Mr. Geoff Lang, Ms. Alison Cowell a Mr. Wyn Thomas fel cynrychiolwyr o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) i'r cyfarfod. Nodwyd nad oedd Mr. Simon Dean, y Prif Weithredwr Dros Dro yn gallu bod yn y cyfarfod oherwydd ei fod wedi cael galwad i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn Llywodraeth Cymru.

Nododd y Cadeirydd ymhellach fod holl Aelodau'r Cyngor Sir wedi cael gwahoddiad i'r cyfarfod ar gyfer yr eitem hon a'u bod wedi cael cyfle i gyflwyno cwestiynau i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr cyn y cyfarfod. Roedd ymateb i'r cwestiynau a ofynnwyd wedi cael ei anfon at Aelodau'r Cyngor Sir.

Cafwyd cyflwyniad gan gynrychiolwyr Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn dwyn sylw at yr isod :-

**Egwyddorion Gweithredu**

- Ymgysylltu gyda'r cyhoedd a staff;
- Gweledigaeth Gogledd Cymru – Darparu Gwasanaethau yn Lleol;
- Dadansoddiad o anghenion y boblogaeth a chleifion, 'beth sy'n bwysig';
- Atal salwch a lleihau dibyniaeth;
- Comisiynu gwybodus ar gyfer gofal sylfaenol;
- Diwylliant ardal-eang o Weithio mewn Partneriaeth;
- Llwybrau'n cael eu harwain gan y gymuned – y cartref yw'r rhagdybiaeth gyntaf;
- Datblygu'r Gweithlu – dadansoddiad o'r cymysgedd o sgiliau, swyddogaethau generig ac uwch;
- Cynllunio Olyniaeth;
- Sefydlu'n gadarn drefniadau ar gyfer diogelu Plant ac Oedolion;
- Diogelwch cleifion, rheoli risg ac ansawdd y gwasanaeth;
- Cynllunio gweithredol a busnes cadarn, rheolaeth ariannol, atebolrwydd a rheoli perfformiad.

**Gweledigaeth y Bwrdd Iechyd**

- Cleifion a chymunedau'n llai dibynnol;
- Clystyrau'n dylanwadu ar y system;
- Perthnasau o ymddiriedaeth ar lefel leol;
- Gwasanaethau cymunedol craidd a thimau integredig cadarn;
- Gweledigaeth ar gyfer gwasanaethau lleol gyda phartneriaid a staff yn cymryd perchenogaeth a chymunedau lleol yn eu deall, cynllunio ar y cyd;
- Gweithlu wedi ei ysbrydoli a chanddo'r sgiliau priodol;
- Gwasanaethau wedi eu moderneiddio drwy dechnoleg ac arloesedd;
- Gwella enw da Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr;
- Gwneud penderfyniadau ar lefel leol a dylanwadu ar y cyfeiriad strategol.

Cafwyd sesiwn cwestiwn ac ateb a mynegwyd y sylwadau a'r pryderon a ganlyn :-

- BIPBC yn gwneud newidiadau dros dro i Wasanaethau i Ferched a Gwasanaethau Mamolaeth yng Ngogledd Cymru. Pryderon ar Ynys Môn bod gwasanaeth mamolaeth arbenigol yn Ysbyty Gwynedd mewn perygl. Dywedodd BIPBC mewn ymateb eu bod ar hyn o bryd wrthi'n gweithio drwy'r ymatebion i'r ymgynghori ar wasanaethau mamolaeth yng Ngogledd Cymru ac y bydd adroddiad yn cael ei baratoi wedyn ar yr asesiad o'r effaith ar ansawdd ac iechyd a'i gyflwyno i'r Bwrdd Iechyd yn gynnar ym mis Rhagfyr. Mae'r Bwrdd iechyd wedi gwahodd y Coleg Brenhinol Obstetreg a Gynecoleg i weithio ochr yn ochr â Thîm Clinigol y Bwrdd ar draws Gogledd Cymru i edrych ar wasanaethau cyfredol y Bwrdd Iechyd i Ferched a'r Gwasanaeth Mamolaeth. Nid oes unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd i newid y gwasanaethau Obstetreg yng Ngogledd Cymru. Roedd Aelodau'r Pwyllgor o'r farn bod angen cadw'r Gwasanaethau i Ferched a'r Gwasanaethau Mamolaeth yn Ysbyty Gwynedd ym Mangor;

- Mae'r Cyngor Sir, drwy ei Raglen Drawsnewid ar gyfer Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol i oedolion, yn ymrwymedig i ddatblygu darpariaeth Gofal Ychwanegol ar hyd a lled Ynys Môn gan gefnogi gweledigaeth y Cyngor i symud oddi wrth ofal preswyl traddodiadol a chyflwyno modelau gofal amgen. Gofynnwyd a ymgynghorwyd gyda BIPBC fel rhan o'r ymgynghoriad yn ddiweddar ynghylch Cartref Preswyl Haulfre yn Llangoed. Mewn ymateb, dywedodd BIPBC y trafodwyd Cartref Preswyl Haulfre mewn cyfarfod o Fwrdd Integredig ac arno gynrychiolwyr o BIPBC, y Cyngor Sir a'r Trydydd Sector. Dywedodd Mrs Ffion Johnston, Cyfarwyddwr Ardal (Y Gorllewin) ei bod hefyd yn cyfarfod yn rheolaidd gyda Phrif Swyddogion y Cyngor Sir ac y cafwyd trafodaeth ynghylch darpariaethau Gofal Ychwanegol ar Ynys Môn;

- Yn ddiweddar, mae amlder sgrinio serfigol i ferched dros 50 oed wedi cael ei newid o 3 i 5 mlynedd. Gofynnwyd a oedd hynny oherwydd tystiolaeth glinigol neu'r angen i arbed arian. Mewn ymateb, dywedodd BIPBC bod sgrinio yn cael ei yrru gan dystiolaeth glinigol ac argymhellion gan Bwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y DU. Dengys astudiaethau bod sgrinio merched rhwng 50-64 oed bob pum mlynedd yn cynnig yr un diogelwch â sgrinio bob tair blynedd oherwydd mae'r siawns o gael canser serfigol yn gostwng gydag oed. Mae 78% o ferched ar Ynys Môn yn mynd i sesiynau sgrinio serfigol;

- O ran gofal y fron a diagnosis canser, holwyd am yr amser aros cyfredol am gyfeiriad i weld arbenigwr. Dywedodd BIPBC y byddai'n rhaid iddynt adrodd yn ôl gyda data am yr amseroedd aros cyfredol ar gyfer gofal y fron a diagnosis canser;

- Uned Seiciatrig Hergest yn Ysbyty Gwynedd -

  - Gofynnwyd faint o gwynion a gafwyd ynghylch ymddygiad ymosodol gan gleifion eraill neu ymddygiad annerbyniol staff tuag at gleifion mewn perthynas ag Uned Seiciatrig Hergest yn 2015. Mewn ymateb, dywedodd BIPBC y cafwyd 16 o gwynion gan gleifion yn 2015. Bydd angen adrodd yn ôl i Aelodau'r Pwyllgor ynghylch digwyddiadau'n ymwneud â chleifion a staff;

  - Gofynnwyd faint o achosion o chwythu'r chwiban gan staff a gafwyd yn 2015 ac a yw'r data hanesyddol yn adlewyrchu unrhyw batrwm. Dywedodd BIPBC na chafwyd unrhyw achosion o chwythu'r chwiban yn Uned Hergest yn 2015. Ymgymerwyd â rhaglen waith gyda staff a chefnogaeth allanol i wella safon y gofal yn Uned Hergest. Gofynnwyd am farn y Bwrdd Comisiwn Seiciatreg mewn perthynas ag ansawdd y gwasanaeth yn Uned Hergest;

- Mae cyflwr mewnol yr Uned Hergest wedi cael ei adael i ddirywio dros y blynyddoedd. Ymatebodd BIPBC y bydd ansawdd yr amgylchedd yn Uned Hergest yn cael ei ymgorffori yn y Strategaeth Iechyd Meddwl a oedd yn digwydd ar hyn o bryd.

- Ysbyty Penrhos Stanley, Caergybi ac Ysbyty Cefni, Llangefni – holwyd ynghylch bwriadau BIPBC ar gyfer y ddau ysbyty yn y dyfodol. Ymatebodd BIPBC fod yna ward wag yn Ysbyty Penrhos Stanley a bod ymchwiliadau'n cael eu gwneud ar hyn o bryd i leoli uned therapi mewnwythiennol ac asesu yn Ynys Môn. Mae uned asesu breguster yn cael ei hystyried ar gyfer Ysbyty Penrhos Stanley. Mae ward iechyd meddwl yn bodoli ar hyn o bryd yn Ysbyty Cefni ac mae BIPBC yn ymchwilio i sefydlu uned iechyd meddwl ar gyfer pobl o bob oed yn y dyfodol. Fodd bynnag, pwysleisiwyd nad oes unrhyw benderfyniadau wedi cael eu gwneud ar gyfer dyfodol y cyfleuster hyd yma. Bydd angen i'r Cyfarwyddwr Ardal (Y Gorllewin) a Swyddogion o'r Awdurdod Lleol drafod y defnydd posib o'r cyfleusterau yn y man;

- Mae cleifion sy'n ceisio cael apwyntiad gyda meddyg teulu yn gorfod gwneud nifer o alwadau ffôn cyn cael trwodd. Mae llawer yn mynychu'r Uned Damweiniau ac Achosion Brys neu'n ffonio'r gwasanaeth y tu allan i oriau yn Ysbyty Gwynedd gan eu bod yn cael trafferth gwneud apwyntiad gyda'u meddygon teulu eu hunain. Ymatebodd BIPBC trwy ddweud bod llawer o feddygfeydd ar yr Ynys yn ymchwilio i systemau ffôn / apwyntiadau newydd ac efallai y bydd angen i'r bwrdd iechyd eu cefnogi'n ariannol gyda hyfforddi staff eraill o fewn meddygfeydd meddygon teulu;

- Materion recriwtio gyda staff nyrsio. Ymatebodd BIPBC y bu newid sylweddol dros y 3 blynedd diwethaf o ran faint o nyrsys a ddisgwylir ar wardiau a hynny er mwyn adlewyrchu natur newidiol anghenion pobl sy'n cael gofal. Mae'r DU gyfan yn ceisio recriwtio staff yn dilyn Adroddiad Frandis ar y gwasanaeth iechyd gwladol yn Swydd Stafford. Mae'r rhaglenni hyfforddi ar ei hôl hi.

- Gofynnwyd cwestiynau ynghylch y gymhareb rhwng swyddi rheoli/ gweinyddol a swyddi staff meddygol yn Ysbyty Gwynedd. Holwyd hefyd a oedd BIPBC yn ystyried diswyddo gwirfoddol ar gyfer swyddi gweinyddol. Ymatebodd BIPBC fod y gymhareb staff meddygol yn Ysbyty Gwynedd yn llawer uwch nag yn unrhyw fwrdd iechyd arall yng Nghymru. Dywedwyd bod y swyddi gweinyddol yn rhan o dimau clinigol da yn Ysbyty Gwynedd ac nid oes bwriad i gynnig diswyddiadau gwirfoddol oherwydd bod nifer y swyddi gweinyddol wedi bod yn gostwng dros y blynyddoedd. Bydd manylion ynghylch y costau rheoli'n cael eu hanfon at yr Aelodau maes o law;

- Mae camddefnyddio cyffuriau / alcohol yn cael effaith ddifrifol ar blant, teuluoedd a'r henoed. Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Plant ei bod yn cytuno yn llwyr â'r datganiad bod camddefnyddio cyffuriau / alcohol yn cael effaith enbyd ar blant a theuluoedd. Mae'r Cyngor Sir yn awdurdod arweiniol ar gyfer Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd Gwynedd a Môn (ar ran Gwynedd ac Ynys Môn a'r Bwrdd Iechyd) sy'n gweithio gyda theuluoedd lle mae problemau cyffuriau ac alcohol yn peryglu diogelwch y plant yn eu cartrefi. Cafodd y gwasanaeth 20 o atgyfeiriadau'r llynedd, ac yn ystod y 6 mis diwethaf, mae 20 o atgyfeiriadau eraill wedi eu derbyn. Nododd y Cyfarwyddwr Cymuned fod Bwrdd 'Model Môn' ar gyfer oedolion wedi cael ei ymgorffori o fewn yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol ers nifer o flynyddoedd a bod bwriad i ymgorffori Bwrdd 'Model Môn' ar gyfer gwasanaethau plant hefyd; mae gwahoddiad wedi ei estyn i'r Pennaeth Dysgu fod yn aelod o'r Bwrdd hwn.

Diolchodd y Cadeirydd i'r cynrychiolwyr o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr am ddod i'r cyfarfod ac i holl Aelodau a Swyddogion y Cyngor Sir am eu cyfraniadau i'r eitem hon.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a disgwyl am ymateb BIPBC i'r materion ynglŷn â pham nad oedd gwybodaeth ar gael yn y cyfarfod.**

**GWEITHREDU: Fel y nodwyd uchod.**

**5 GWASANAETH TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

Rhoddodd y Cadeirydd groeso i Mr Simon Smith, Prif Swyddog Tân a Mr Kevin Roberts, Uwch Reolwr Gweithrediadau o Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru. Croesawodd hefyd y Cynghorydd Peter Lewis, Dirprwy Gadeirydd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru i'r cyfarfod. Estynnodd groeso hefyd i'r Cynghorydd Llinos Jones ac i Faer Cyngor Tref Llangefni a'r Cynghorydd Margaret Thomas. Nododd ymhellach fod pob Aelod o'r Cyngor Sir wedi eu gwahodd i fynychu'r cyfarfod ar gyfer yr eitem hon.

Cafwyd cyflwyniad gan gynrychiolwyr o Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru ar y broses ymgynghori a gynhelir ar hyn o bryd ar yr Amcanion Gwella drafft ar gyfer blwyddyn ariannol 2015/16. Roedd y cyflwyniad yn amlygu'r materion canlynol: -

- Mae costau rhedeg y Gwasanaeth Tân ac Achub yng Ngogledd Cymru o gwmpas £32m - sy'n gyfwerth â £ 46 y flwyddyn ar gyfer pob un o drigolion Gogledd Cymru;
- Mae'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn bwriadu ymgorffori strategaeth ariannol 3 blynedd i rewi'r gyllideb. Dros y 5 mlynedd diwethaf mae'r Gwasanaeth Tân wedi gwneud arbedion o £3 miliwn, sef 10% o'r gyllideb;
- Yr amcan yw parhau i helpu i gadw pobl yn ddiogel rhag tân yn eu cartrefi gyda'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn ymweld â chartrefi ac yn darparu larymau tân yn rhad ac am ddim;
- Mae'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn mynychu ysgolion i addysgu plant am y peryglon sy'n gysylltiedig â thanau;
- Gwelwyd gostyngiad o 50% yn nifer y digwyddiadau Tân yng Ngogledd Cymru;

Cafwyd sesiwn holi ac ateb a chyflwynwyd y sylwadau a'r pryderon canlynol ynghyd â chwestiynau gan gynrychiolwyr o Gyngor Tref Llangefni: -

- Digwyddiad Tân yn y siop Pysgod a Sglodion yn Llangefni

  - Dylid ystyried cael gorsaf dân gyda chriw llawn yn Llangefni i ddiogelu'r dref sydd â stad ddiwydiannol, adeiladau Cyngor a phentrefi gwledig o'i chwmpas. Ymatebodd y Gwasanaeth Tân ac Achub fod yna 10 o bobl yn y criw wrth gefn yn Llangefni ac nid oedd hanner y criw ar gael yn ardal Llangefni ar ddiwrnod y tân oherwydd eu bod yn eu prif leoedd gweithio. Ni fu criw cyflawn erioed yng ngorsaf dân Llangefni. Byddai costau sy'n gysylltiedig â darparu gorsaf dân gyda chriw cyflawn yn golygu na fyddai'n opsiwn realistig. Pe bai Gorsaf Dân sy'n debyg i honno yng Nghaergybi - sydd â 'chriw dydd' a chyflenwad llawn o staff yn ystod y dydd a chriw 'wrth gefn' ar gyfer gyda'r nos - yn cael ei ystyried ar gyfer tref Llangefni, byddai'r gost i'r Awdurdod Tân tua £ 750k y flwyddyn.

  - 20 munud i'r Gwasanaeth Tân gyrraedd y tân. Ymatebodd y Gwasanaeth Tân ac Achub mai nod y Gwasanaeth Tân yw bod y peiriant agosaf yn cyrraedd y tân cyn gynted ag y bo modd. Nid yw'r Swyddfa Gartref bellach yn argymell cyfnod penodol o amser ar gyfer cyrraedd tân. Hyd at 10 mlynedd yn ôl 'roedd y

gorsafoedd tân ar Ynys Môn yn cael eu categoreiddio ar sail risg. Roedd gorsaf Caergybi yn 'risg C', sef bod angen i un peiriant gyrraedd y tân o fewn 10 munud a dyna pam mae criw tân amser llawn yng Nghaergybi. Categoreiddiwyd gweddill yr Ynys yn 'risg D', sef un peiriant i gyrraedd y tân o fewn 20 munud.

- Recriwtio Diffoddwyr Tân

- Cwestiynau ynghylch proses y Gwasanaeth Tân ac Achub ar gyfer recriwtio Diffoddwyr Tân. Ymatebodd y Gwasanaeth Tân ac Achub ei fod wedi defnyddio nifer o wahanol brosesau recriwtio dros y blynyddoedd h.y. cysylltu â chyflogwyr, gweithdrefn recriwtio ar draws Cymru a chyfryngau cymdeithasol. Nodwyd bod recriwtio Diffoddwyr Tân yn bryder cenedlaethol.

Cyfeiriodd y Swyddog Sgriwtini at yr holiadur ar y ddogfen ymgynghori a ddosbarthwyd i'r Aelodau. Gofynnodd yn garedig i'r Aelodau ymateb i'r ddogfen. Ychwanegodd y bydd Arweinwyr y Grwpiau yn llunio ymateb swyddogol i'r ymgynghoriad ar wahân ar ran y Cyngor Sir.

Diolchodd y Cadeirydd i'r cynrychiolwyr o Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru am ddod i'r cyfarfod ac i bob Aelod o'r Cyngor Sir am eu cyfraniadau i'r drafodaeth ar yr eitem hon. Diolchodd hefyd i'r cynrychiolwyr o Gyngor Tref Llangefni am eu cyfraniadau.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a'r sylwadau fel y nodwyd uchod.**

**GWEITHREDU: Fel y nodwyd uchod.**

## 6 RHAGLEN WAITH

Cyflwynwyd – y Rhaglen Waith ddrafft.

Cyfeiriodd y Swyddog Sgriwtini at yr eitemau sylweddol a nodwyd ar gyfer y cyfarfod nesaf a gynhelir 2 Chwefror, 2016, fel a ganlyn: -

- Adolygiad o Wasanaethau Ieuenctid
- Adolygiad o Wasanaethau Diwylliannol
- Cynllun ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr

Nodwyd y bydd y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd, ynghyd â'r Swyddog Sgriwtini, yn trafod eitemau eraill posib ar gyfer y cyfarfod nesaf yn y man.

**PENDERFYNWYD nodi'r Rhaglen Waith ddrafft ac ymgorffori'r eitemau posibl yn dilyn trafodaeth gyda'r Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd.**

Daeth y cyfarfod i ben am 5.00 pm

**Y CYNGHORYDD D R HUGHES**

**CADEIRYDD**

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adrodd i'r:** | • **Pwyllgor Sgriwtini  Partneriaeth ac Adfywio- 2/2/16**<br>• **Pwyllgor Gwaith- 8/2/16** |
| **Dyddiad:** | **2/2/16 a 08/2/16** |
| **Testun:** | **Sicrhau gwasanaethau cynaladwy ac effeithlon i'r dyfodol : Trawsnewid y Gwasanaeth Ieuenctid**<br><br>**Darganfyddiadau'r Gwasanaeth Ieuenctid** |
| **DeilyddPortffolio :** | **Y Cynghorydd Kenneth Hughes** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Delyth Molyneux** |
| **Awdur yr Adroddiad :**<br>Ffôn:<br>E-bost: | **Enid Williams**<br>**01248 752938**<br>**enidwilliams@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Perthnasol i'r holl aelodau etholedig** |

| A – Argymhelliad/Argymhellion a rheswm/rhesymau |
|---|

**Argymhellion:**

Gofynnwn i'r Pwyllgor Gwaith:

a. Ystyried darganfyddiadau'r ymgynghoriad 'Ein Hieuenctid, Ein Dyfodol: Darganfyddiadau Ymygynghoriad Ionawr 2016' – a nodi ymateb y bobl ifanc a thrigolion Ynys Môn i'r cynigion a'r syniadau roddwyd gerbron fel rhan o'r ymgynghoriad.

b. Awdurdodi'r gwasanaeth i barhau i ymchwilio a phrisio modelau posib ar gyfer y dyfodol yng nghyd-destun y darganfyddiadau, fel yr amlinellir yn yr adolygiad gwasanaeth ieuenctid, dogfen darganfyddiadau o'r ymgynghoriad. Bydd hyn yn cynnwys prisio gwasanaeth yn seiliedig ar arbedion o 20%, 30% 40% a 50% fel yr amlinellir yn y Cynllun Corfforaethol 2013-17. Telir sylw arbennig i effaith y newidiadau ar grwpiau bregus.

c. Rhoi caniatad i symud ymlaen i rhan 2 o'r broses a pharhau i ymgynghori ar y modelau terfynol wedi eu prisio yn Mehefin a Gorffennaf 2016 gyda golwg i gyflwyno'r argymhellion terfynol i bwyllgor sgrwtini a'r pwyllgor gwaith yn gynnar yn hydref 2016, i weithredu'r model gwasanaeth newydd yn 2017-2018.

Yn seiliedig ar ddarganfyddiadau'r ymynghoriad bydd yr opsiynau i'w hystyried yn cynnwys:

1. Apwyntio gweithiwr ieuenctid llawn-amser wedi eu lleoli ym mhob ysgol uwchradd, yn gweithredu ar amrediad o'r blaenoriaethau.

2. Strwythur llai o glybiau yn cael eu rhedeg gan y Gweithiwr Ieuenctid Ysgol a thîm llai o Weithwyr Rhan-amser.

3. Y posibilrwydd o gefnogi cymunedau pentrefi bychan i redeg clybiau ieuenctid gwirfoddol, wedi eu cefnogi ond nid eu hariannu gan y gwasanaeth ieuenctid.

4. Ymestyn rôl y Gweithiwr Ieuenctid Alcohol i gynnwys Cam-ddefnydd sylweddau, a'r cam-driniaeth rhywiol sy'n gallu digwydd o ganlyniad i'r camddefnydd.

5. Gweithio gyda Gwobr Dug Caeredin i ddatblygu'r ysgolion i gymeryd mwy o gyfrifoldeb am Y Wobr/Datblygu Achredu o fewn yr ysgolion.

6. Penodi gweithiwr hanner-amser fel Gweithiwr Ymgysylltu i weithio gyda phobl ifanc sydd ddim mewn Addysg, Hyfforddiant na Gwaith, wedi ei ariannu'r drwy'r Grant Ymgysylltiad a Chynnydd. Adolygu hyn o fewn 2 flynedd I benderfynu os yw'r gwasanaeth angen adolygiad pellach i gynnwys y gwaith yma o fewn y darpariaeth craidd, yn hytrach na pharhau'n waith a ariannir drwy grant.

d. Bod y Pwyllgor Gwaith yn cefnogi'r Gwasanaeth Ieuenctid a'r Bwrdd Trawsnewid i adolygu'r strwythur staffio, a thelerau ac amodau gwaith staff i adlewyrchu'r newidiadau mewn cyfrifoldebau.

**Rhesymau**

Mae'r rhaglenni cenedlaethol a lleol a'r heriau ariannol yn golygu ei bod yn hanfodol i ni adolygu'r ffordd mae gwasanethau ieuenctid yn cael eu darparu.

Y prif yrrwyr am newid yw:
1. Targedau o fewn y Strategaeth Gwasanaeth Ieuenctid 2014-2018.
Cydnabyddir yr angen i weld y gwasanaeth yn parhau fel un strategol ac nid yn rhan o wasanaeth hamdden. Mae gwaith ieuenctid da yn gallu gwella presenoldeb, ymddygiad, cymhelliant a pherthnasau o fewn ysgolion. O fewn y strategaeth mae yna bwyslais yn awr ar roi rôl allweddol i weithwyr ieuenctid i gefnogi pobl ifanc i

| |
|---|
| ieuenctid ymgynghori ar Fodelau Darpariaeth i'r Dyfodol. Mae canlyniadau'r ymgynghoriad wedi eu hatodi.<br><br>Cwblhawyd yr ymgynghoriad hefo pobl ifanc ac oedolion hefo diddordeb ar-lein drwy wefan y Cyngor, ac ar bapur drwy'r Clybiau Ieuenctid, Ysgolion a gyda Grwpiau Ffocws. Rhoddwyd cyfle i bobl ifanc leisio barn am y ddarpariaeth bresennol, pa wasanaethau maent yn ddefnyddio, a beth yw blaenoriaethau am ddarparu gwasanaeth i'r dyfodol.<br><br>Canlyniad yr ygmynghoriad (Atodiad 1) oedd bod 930 o bobl ifanc wedi cwblhau holiaduron yn ogystal â mewn-bwn gan brosiect Lleisiau Lleol – Llais Ni, a chyd-weithio hefo ysgolioon a grwpiau eraill. |
| |

| **B – Pa opsiynau eraill ystyriwyd a pham y diystyrrwyd y rheini a/neu ddewis opsiwn arall?** |
|---|
| Roedd yn ofynnol edrych ar raglen o ymgynghori gyda'r cyhoedd, partneriaid a grwpiau penodol o ddefnyddwyr, cyn symud ymlaen i ymgynghori ymhellach ar fodelau fydd wedi eu prisio yn Mehefin/Gorffennaf 2016. Addroddir yn llawn ar y dargangyddiadau yn Atodiad 1. |

| **C – Pam bod hyn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith ?** |
|---|
| Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith awdurdodi cwblhau gwaith pellach yn dilyn yr argymhellion gan ddefnyddwyr clybiau ieuenctid a phartneriaid eraill.<br><br>Gofynnir am ganiatad i symud i Ran 2 o'r broses ymgynghori a chwblhau ymgynghoriad pellach ar y modelau terfynol fydd wedi eu prisio erbyn Mehefin a Gorffennaf 2016 gyda golwg ar i'r argymhellion terfynol ddod gerbron y pwyllgor sgrwtini a'r pwyllgor gwaith yn gynnar yn hydref a gyda model newydd o wasanaeth yn weithredol erbyn 2017 – 2018. |

| **CH – ydi hwn yn cyd-fynd hefo polisi wedi ei awdurdodi gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Ydi |

| **D – Ydi hwn yn benderfyniad o fewn cyllideb wedi ei awdurdodi gan y Cyngor?** |
|---|
| Dim yn berthnasol |

| DD – Gyda pwy yr ymgynghorwyd? | | Beth oedd ganddynt i'w ddweud? |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dîm Rheoli** (gorfoddol) | Yr UDRh yn cytuno gyda chynnwys yr adroddiad. |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (gorfodol) | |
| 3 | **Cyfreithiol/Swyddog Monitro** (gorfodol) | |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| 5 | **Eiddo** | |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TG)** | |
| 7 | **Sgrwtini** | I'w drafod yng nghyfarfod Sgrwtini, Partneriaethau ac Adfywio ar 02/02/16 |
| 8 | **Local Members** | |
| 9 | **Any external bodies / other/s** | |

| E – Risgiau a lleihau risg (os yn berthnasol) ks and any mitigation (if relevant) | | |
|---|---|---|
| 1 | **Economi** | |
| 2 | **Gwrth-dlodi** | Bydd effaith unrhyw adolygiad ar y maes yma'n cael ei ystyried o fewn y rhaglen trawsnewid y gwasanaeth ieuenctid. |
| 3 | **Trosedd ac Anrhefn** | |
| 4 | **Amgylchedd** | |
| 5 | **Cyfle Cyfartal** | Mae'r asesiad effaith ar gydraddoldeb yn barhaus ac yn cael ei adolygu wrth symud i'r cam nesaf. |
| 6 | **Cytundebau Allbynnau** | |
| 7 | **Arall** | |

| F - Atodiadau: |
|---|
| Atodiad 1: Adolygiad Gwasanaeth Ieuenctid<br>Ein Hieuenctid, Ein Dyfodol: Darganfyddiadau Ymgynghoriad Ionawr 2016 |

| FF – Papurau Cefndirol (cysylltwch gyda awdur yr adroddiad os am gael gwybodaeth bellach) : |
|---|
| |

4. Mae Ynys Môn a Gwynedd wedi cadw'r rhwydwaith ehangaf o glybiau gwledig bychan, drwy Gymru. Fodd bynnag, gwelwyd gostyngiad o 17% rhwng 2013-14 a 2014-15. Byddai hyn ynddo'i hun yn yrrwr i'r gwasanaeth i wneud adolygiad trwyadl o lle a sut ydym yn ymgysylltu hefo pobl ifanc. O'r herwydd mae'r gwasanaeth wedi cyd-weithio hefo'r Bwrdd Trawsnewid i gychwyn ar yr ail-strwythuro, ac felly wedi ymgynghori'n eang gyda phobl ifanc, a gofyn iddynt hwy pa wasanaethau maent yn dymuno eu gweld ar eu cyfer i'r dyfodol.
5. Cyplysir gyda hyn angen yr Awdurdod i adnabod blaenoriaethau wrth symud ymlaen i weithredu rhaglen eang o arbedion, a sicrhau ein bod yn ateb gofynnion y genhedlaeth bresennol o bobl ifanc, tra'm gweithredu ar y ndewidiadau radical mewn blaenoriaethau cenedlaethol, i sicrhau ein bod yn darparu i raglenni cyfoes, yn hytrach na darparu gwasanaeth sy'n seiliedig ar flaenoriaethau hanesyddol neu draddodiadol.

**Y BWRDD TRAWSNEWID A'R YMGYNGHORIAD**

Mae'r gwasanaeth wedi gweitho fel rhan o'r Bwrdd Trawsnewid sy'n edrych ar y Gwasanaeth Ieuenctid, Gwasanaeth Llyfrgelloedd a Gwasanaethau Diwylliant. Maent hefyd wedi cael mewn-bwn gan Lleisiau Lleol – drwy brosiect Llais Ni. Ymgynghorwyd gyda phobl ifanc ac oedolion oedd hefo diddordeb drwy holiadur ar-lein ar wefan y Cyngor; drwy holiaduron papur drwy'r Clybiau Ieuenctid, yr Ysgolion a Grwpiau Ffocws. Canolbwyntiodd yr holiadur i bobl ifanc ar gael barn pobl ifanc ar y gwasanaethau presennol, pa rai maent yn ddefnyddio, a beth fydd eu blaenoriaethau ar gyfer darpariaeth i'r dyfodol.

Cwblhawyd holiaduron gan 930 o bobl ifanc, gyda'r croes-dorriad o ymatebion fel a ganlyn:

| | | |
|---|---|---|
| Gwryw | 392 | 42.5% |
| Benyw | 520 | 55.9% |
| Dim yn dymuno dweud | 18 | 1.94% |

Oed yr ymatebwyr oedd:

| | | | |
|---|---|---|---|
| Oed | 10 | 4 | 0.43% |
| | 11 | 124 | 13.3% |
| | 12 | 192 | 20.65% |
| | 13 | 200 | 21.51% |
| | 14 | 200 | 21.51% |
| | 15 | 109 | 11.72% |
| | 16 | 37 | 3.98% |
| | 17 | 32 | 3.4% |
| | 18-24 | 30 | 3.2% |
| | 25+ | 2 | 0.22% |

Roedd 75.7% o'r ymatebwyr yn mynychu naill ai Glwb Ieuenctid neu Ganolfan Wobr Agored. Ymgynghorwyd yn y 5 Ysgol Uwchradd (gyda'r ysgol yn cael dewis y disgyblion fel y dymunent), a chynhaliwyd Grwpiau Ffocws gyda Fforwm Ieuenctid Sirol Llais Ni, mewn digwyddiad gan y Ffermwyr Ifanc yn y Ffair Aeaf, a gyda'r 2 glwb ar gyfer pobl ifanc gydag anghenion arbennig. Derbyniwyd 30 o lythyrau gan unigolion neu aelodau, a 29 o ymatebion ysgrifenedig mewn fformat arall. Hefyd lluniwyd petisiwn ar-lein gan aelodau Clwb Ieuenctid Llangefni, a chynhaliwyd Cyfarfod Cyhoeddus ganddynt hwy hefyd, lle gwnaethpwyd cyflwyniad gan y bobl ifanc yn gwrthwynebu unrhyw doriadau yn y ddapriaeth clybiau. Mynychwyd hwn gan Gynghorwyr Sir a Thref.

Y canlynol oedd rhesymau'r rhai nad ydynt yn mynychu Clwb Ieuenctid, am beidio a gwneud:

| | | |
|---|---|---|
| Dim clwb yn agos | 40 | 18% |
| Dim yn gwybod beth sy'n digwydd yno | 34 | 15.3% |
| Dim yn hoffi'r staff | 5 | 2.25% |
| Dim yn hoffi'r man cyfarfod | 10 | 4.5% |
| Dim byd o ddiddordeb yn y rhaglen | 43 | 19.37% |
| Rhy ddrud | 4 | 1.8% |
| Rhywbeth arall ymlaen ar yr un noson | 63 | 28.3% |
| Yn teimlo'n rhy hen i fynychu clwb ieuenctid | 36 | 16.2% |
| Cyfrifoldebau gofalu | 2 | 0.9% |
| Arall | 38 | 17.1% |

Gofynnwyd i'r holl ymatebwyr os oeddent yn mynychu clybiau eraill. Roedd 52.6% yn dweud eu bod, a 47.74% yn adrodd nad oeddent yn mynd i ddim byd arall. Y clybiau roeddent naill ai yn fynychu, neu wedi mynd iddynt yn y gorffennol oedd :

| | |
|---|---|
| Clybiau Ieuenctid heb fod yn rhai'r Cyngor Sir | 1 |
| C Ff I | 39 |
| Yr Urdd | 24 |
| Geidiau | 16 |
| Cadetiaid (Y Fyddin, y Môr, neu Awyrlu) | 24 |
| Llais Ni | 17 |
| Majorettes | 16 |
| Pêl-droed | 89 |
| Rygbi | 32 |
| Gymnastieg, Athletau neu Gweithgareddau Trac | 35 |
| Hoci | 11 |
| Clwb Merlota neu Reidio Ceffylau | 19 |
| Bocsio | 3 |
| Pêl-rwyd | 24 |
| Gofalwyr Ifanc neu Cylch Teulu | 4 |
| Clwb Gwaith Cartref | 10 |
| Nofio, Achub Bywyd neu Gweithgareddau Dŵr | 32 |
| Dawns | 32 |
| 5x60 | 3 |
| Martial Arts | 27 |
| Gwaith Elusennol | 6 |
| Gweithgareddau Celfyddydol e.e. côr, band, pantomeim, sioeau | 29 |
| Arall (yn cynnwys badminton, dringo, coginio, bwa a saeth, RSPB, codi pwysau, ymladdwyr tân ifanc, St John's) | 34 |

Gan bod y mwyafrif o'r ddapariaeth yma'n cael ei redeg gan wirfoddolwyr, gellir dod i'r canlyniad bod yna ddibyniaeth uchel ar wirfoddolwyr i ddarparu'r mwyafrif o weithgaredau chwaraeon a chelfyddydol mae'r bobl ifanc yn ei fynychu. Mae'n ymddangos, fodd bynnag, bod pobl yn llawer mwy parod i wirfoddoli mewn maes lle mae ganddynt ddiddordeb arbenigol, nag ydynt mewn clwb ieuenctid generig. Yn yr holiaduron Oedolion allan o 129 o bobl, dim ond 20 oedd yn barod i wirfoddoli mewn clwb ieuenctid.

Roedd 40% yn dweud eu bod yn aelodau cyfredol, a 56.45% yn gyn-aelodau yn rhai o'r clybiau. Pan ofynnwyd iddynt pam oeddent wedi rhoi'r gorau i fynychu (boed yn glwb ieuenctid neu glwb arall) eu rhesymau oedd:

| | |
|---|---|
| Wedi symud ymlaen i weithgaredd chwaraeon arall | 35 |
| Diflas, dim digon o gyfle i ddatblygu, dim yn cael eu dewis i dimau, dim diddordeb bellach | 60 |
| Bwlio | 4 |
| Rhy hen i gael mynd, neu'n teimlo rhy hen i fynd | 28 |
| Mynd i weithgaredd rall (dim chwaraeon) | 35 |
| Dim trafnidiaeth | 25 |
| Gwaith Ysgol neu Goleg, neu'n Gweithio | 24 |
| Arall | 27 |
| Clwb wedi cau | 10 |
| Gofalwr | 1 |
| Dim yn hoffi'r staff | 6 |

Gallwn dybio o'r uchod bod cadw aelodau'n broblem mewn rhai clybiau neu fudiadau, ac o bosib bod lle i'r rhain wneud gwaith pellach i edrych ar ansawdd eu rhaglennu. Ond hefyd, rhaid cofio yn ystod y blynyddoedd glasoed y bydd aelodau'n tyfu allan o rhai pethau a symud ymlaen i bethau eraill, fel datblygiad naturiol yn y cyfnod yma o'u bywydau.
Mae'n galonogol mai dim ond 4 sy'n nodi eu bod wedi peidio mynychu gweithgaredd oherwydd bwlio, pan mae cymaint o sylw yn cael ei roi i hyn yn y Wasg.

Pan ofynnwyd i bobl ifanc sut oeddent yn cyrraedd i'r clwb yr ymateb oedd:

| | |
|---|---|
| Cerdded | 54.6% |
| Car neu fotobeic eu hunain | 3.34% |
| Lifft gan riant | 51.83% |
| Beic | 1.94% |
| Bws | 3.02% |
| Arall | 3.36% |

Mae angen i unrhyw ail-strwythuro o Glybiau Ieuenctid felly gadw mewn cof bod yna dros 54% o bobl ifanc yn cerdded i'w clybiau ar hy o bryd, a gallai unrhyw ail-strwythuro o'r darpariaeth amharu'n sylweddol ar y niferoedd o bobl ifanc fydd yn gallu cael mynediad i wasanaeth.

Pan ofynnwyd i'r bobl ifanc beth oedd yn bwysig iddynt mewn clybiau dyma oedd yr ymateb:

| | |
|---|---|
| Cyfarfod ffrindiau | 88.5% |
| Bod y clwb yn agos | 59.7% |
| Gwaith ar bynciau penodol e.e. alcahol, cyffuriau, addysg rhyw a.y.b. | 42.6% |
| Chwaraeon | 56.3% |
| Coginio, Crefftau | 45% |
| Actio, canu, a.y.b. | 26% |
| Cael lleisio barn | 40% |
| Teimlo'n ddiogel yn y clwb | 60.4% |

| | |
|---|---|
| Dysgu pethau newydd | 61.7% |
| Dysgu parchu eraill | 51% |
| Magu Hyder | 56% |
| Tripiau | 64% |
| Cael hwyl | 86.5% |

Côst mynychu clwb ieuenctid ar hyn o bryd yw 50c y noson. Pan ofynnwyd faint fyddent yn fodlon dalu dyma'r ymatebion:

| | |
|---|---|
| 50c | 60.3% |
| 75c | 3.56% |
| £1 | 18.21% |
| Talu dim | 0.43% |
| Gwell gennyf beidio dweud | 3.9% |

'Roedd un person yn fodlon talu £3 y noson, ac un arall yn fodlon talu mwy os byddai mwy o dripiau.

**SYLWADAU'R BOBL IFANC AM EU CLYBIAU**

"It's nice to talk to staff"; "Have own space"; "Getting away from home",
"Make new friends, gain confidence and learn skills", "Good place to chill and hang out with friends";
"Keep me out of trouble", "Nothing else to do in my village", "To be part of something", "Get out of school",
"A place where I'm not judged",
"Mae clybiau fel hyn yn ffordd dda o gymysgu … mae llawer o bobl ifanc o dan bwysau ac yn teimlo o dan hyder am eu hun(ain)", "Dydi athrawon a rhieni ddim yn ein gwylio", "Mae Youth Club yn lle i ni gael rhyddid",
"Mae dod i'r clwb bob wythnos yn galluogi llawer o blantos nid yn unig i gymdeithasu ond hefyd i aeddfedu",
"Mae dod i'r clwb yn fy helpu i oherwydd bod o'n le i mi gael dod oddi wrth fy nhri brawd bach",
"Please don't close because me and my sister can't travel as my mum and dad work",
"I made cakes and sold them for cancer awareness", "Rydym yn cael profiadau anhygoel";
"Cael dysgu sgiliau newydd dydach chi ddim yn cael cyfle i'w arbrofi yn yr ysgol",
"Mae (y clwb) yn meddwl y byd i mi", "The youth club brings the youths of …. closer and creates friendships and opportunities;
"How dare you do this to us children. What are we going to do on Wednesdays. Sit on our butts and play on electronics! Thought the idea of youth clubs were to get us out of the house."
"We are doing some file work which will help with my future",
"I go to youth club and it really helps me deal with recent problems in life where I have really struggled, but when I go to Youth Club I'm with my friends and takes my mind off it and I can enjoy my childhood, If there wasn't a youth club I could be at home crying, self-harming, doing drugs, planning suicide or doing really stupid things".
"Please take into consideration small villages as … only have a limited amount of things a teenager can do meaning the youth club is part of our community".

**Ar gyfer unrhyw newidiadau mewn darpariaeth, mae angen cymeryd sylw o'r canlynol:**

**Pan ofynnwyd faint o bobl ifanc oedd yn teimlo ei bod hi'n bwysig iddynt fedru cael siarad hefo Gweithiwr Ieuenctid roedd 87.7% (802) o bobl ifanc yn teimlo bod hyn yn bwysig.**
**Pan ofynnwyd iddynt faint oedd yn teimlo ei bod yn bwysig eu bod yn cael siarad hefo Gweithiwr Ieuenctid yn yr iaith ou dewis, roedd 94.9% yn teimlo bod hyn yn bwysig.**

**GWAITH DATBLYGU ACHREDU**

Mae'r gwasanaeth wedi buddsoddi'n drwm o grantiau ac o ran amser y staff craidd mewn datblygu cyfleon i bobl

ifanc fedru ennill achrediadau. Gofynnwyd i bobl ifanc pa mor bwysig oedd hyn iddynt ac roedd 56.8% yn teimlo ei fod yn bwysig, a 39.4% yn teimlo ei fod yn weddol bwysig, gyda dim ond 3.8% yn teimlo nad oedd angen hyn. O'r bobl ifanc oedd wedi cymeryd rhan yn yr ymgynghoriad roedd 43% wedi ennill tystysgrifau, a 56% heb dderbyn rhai. Roedd 76 wedi eu hennill drwy'r clwb, 42 yn yr ysgol, ac 11 mewn Prosiectau Haf, a 30 mewn lleoliadau arall. Roedd 74% o bobl ifanc oedd wedi mynychu'r Noson Wobrwyo yn teimlo ei bod y Dda neu'n Dda Iawn, ac 20% yn meddwl ei bod yn ok, wgyda 5% yn teimlo ei bod yn wael, neu'n wael iawn.
Gellid casglu o hyn bod cael cyfle i wneud achrediadau drwy'r gwasanaeth ieuenctid yn parhau i fod yn bwysig i bobl ifanc.

**GWAITH IEUENCTID ALL-YMESTYN**

Ariannwyd y gwaith yma drwy ddau brif grant, - gyda gwasaneth y Bws All-ymestyn Rhyng-asiantaethol Y Groes Goch a gwaith y Gweithiwr Ieuenctid Cam-ddefnydd Alcohol. Ariannwyd y ddau o grantiau – y cyntaf o grant Teuluoedd yn Gyntaf, a'r ail drwy grant o'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol.

Bws All-ymestyn a Chostau

Nid yw hwn wedi rhedeg dros y flwyddyn ariannol olaf, oherwydd bod y grant oedd yn talu am y gwaith wedi ei ddirwyn i ben. O bosib oherwydd hyn dim ond 3.5% o bobl ifanc oedd wedi cwblhau holiaduron oedd wedi defnyddio'r gwasanaeth. O'r rhai oedd wedi ei ddefnyddio roedd 78% yn meddwl bod y ddarpariaeth yn dda neu'n dda iawn, 15.27% yn meddwl ei fod yn ok, a 5% yn meddwl ei fod yn wael. Roedd yr holl weithgareddau a gynigiwyd (Gemau Cyfrifiadur, Sesiynau Pynciau Penodol, Siarad hefo Gweithiwr Ieuenctid, Prosiectau yn ystod Gwyliau Ysgol, Chwaraeon, gwaith hefo Asiantaethau allanoo, a Gwaith Cymunedol neu Amgylcheddol) i gyd wedi eu sgorio rhywbeth yn debyg – rhwng 68% a 54%.
Gellir casglu, fodd bynnag, nad oedd cyrhaeddiad eang i'r prosiect yma, ac nad oedd ei ddylanwad yn un hir-dymor, gan nad oedd y mwyafrif o bobl ifanc yn cofio beth oedd y gwasanaeth.

Gweithiwr Ieuenctid Alcohol

Cyflogir gweithiwr arbenigol ym maes Cam-ddefnydd Alcohol yn defnyddio grant o'r Adran Diogelwch Cymunedol. Dyma'r unig brosiect o'i fath yng Ngogledd Cymru, a gan bod y grantiau bellach yn cael eu dosbarthu ar lefel Gogledd Cymru, mae'n bosib y bydd hyn yn dylanwadu ar ddyfodol y grant yma.

Mae'r prosiect yn gweithio ym mhob Ysgol Uwchradd, yr Hafan (PRU), y Coleg, Clybiau Ieuenctid, Hosteli Ieuenctid, gweithio hefo pobl ifanc sydd ddim mewn Addysg, Hyfforddiant na Gwaith, ac unrhyw berson ifanc neu eu teuluoedd lle daw cyfeiriad yn nodi y byddai ymyrraeth gan y Gweithiwr yn gallu o fantais.

O'r bobl ifanc a ymatebodd, roedd 62.5% wedi bod mewn cyswllt hefo'r gwasanaeth. Cafwyd cyswllt drwy un neu ragor o'r canlynol:

| | |
|---|---|
| Clybiau | 68.7% |
| Ysgol (mewn dosbarth neu gyflwyniad yn yr ysgol (e.e. Criw Craidd, Dewis Byw) | 72% |
| Y Bws Ieuenctid neu brosiectau tebyg | 1.38% |

'Roedd 88% yn graddio'r Gwsanaeth fel bod yn Dda iawn neu'n Dda, 10% yn dweud ei fod yn ok, a dim ond 0.8% oedd yn ei gyfrif fel bod yn wael.

**CLYBIAU ANGHENION ARBENNIG**

Darperir 2 glwb ar gyfer pobl ifanc gydag anghenion addysgol ychwanegol gan y gwasanaeth ar hyn o bryd. Cynhaliwyd grwpiau ffocws yn y ddau glwb. Gyda gofyn wedi ei wneud i'r gwasanaeth edrych ar gynnig arbedion o hyd at 60% yna i'r dyfodol efallai na fyddai cyllid ar gyfer rhedeg y ddau glwb. Roedd y rhieni a'u gweithwyr cefnogol i gyd am bwysleisio bod y bobl ifanc yn bobl ifanc hefo anghenion arbennig, ac felly y dylent gael ystyriaeth arbennig. Yn wahanol i bobl ifanc eraill, oedd yn gallu mynychu nifer o wahanol wiethgareddau, dim ond y Clwb Anghenion Arbennig oedd rhai o'r bobl ifanc yma'n eu mynychu yn annibynnol o'u rhieni. Byddai cau'r clybiau yma yn eu gwneud yn fwy unig byth.

Pe byddai'r clybiau'n cael eu huno, roedd nifer o rieni yn rhagweld na fyddai eu plant yn gallu teithio i leolliad pellach, gan y byddai naill ai'n rhy ddrud, neu'n rhy flinedig i'r person ifanc. Hefyd, roedd nifer o'r bobl ifanc yn ddibynnol ar gael gweithiwr cefnogol i ddod a nhw i'r clwb, ac roedd rhai o'r gweithwyr yma'n gweithio yn y ddau glwb, hefo pobl ifanc gwahanol. Roeddent yn ansicr os fyddai yna ddigon o weithwywr cefnogol ychwanegol ar gael, hefo'r sgiliau priodol, i ddod a'r aelodau i gyd i un lleoliad ar un noson.

Roedd y clwb hefyd yn achubiaeth i rieni pan mae gwasanaeth 'respite' eisoes wedi eu torri i'r byw, ac mae cael cyfle i'w mab neu ferch i fynd i'r clwb yn rhoi cyfle iddynt hwy rhoi amser i'w plant eraill, sydd heb anghenion arbennig. Rhagwelai rhai rhieni y gallent gynorthwyo, ond un o'r agweddau pwysicaf am y clwb oedd bod pobl ifanc yn cael mynychu'n annibynnol o'u rhieni. Mae'r clybiau'n ddibynnol iawn ar wirfoddolwyr i'w rhedeg yn barod, gyda nifer ohonynt yn gweithio yn rheolaidd ac wedi gwneud hynny ers  blynyddoedd. Nid oedd y rhieni yma'n teimlo y gallent fod yn ymgymryd â'r gyfrifoldeb ychwanegol a fyddai rhedeg clwb yne i olygu.

O'r opsiynau drafodwyd y teimlad oedd mai'r opsiwn tecaf fyddai rhedeg y clybiau bob yn ail wythnos, ond yn y tymor hir nid oedd neb o'r farn y byddai hyn yn gweithio, oherwydd bod y bobl ifanc a'r rhieni yma angen 'routine' a strwythur, a byddai'r aelodaeth yn dirywio oherwydd na fyddai'r bobl ifanc na'u rhieni byth yn siŵr pryd y byddai'r clybiau yn cael eu cynnal. Nid oeddent yn teimlo bod cael noson fyrrach, na thymor byrrach yn mynd i gadw'r gwaith yn ddigon hyfyw nag yn talu digon i staff fod yn ymrwymo i weithio mewn clwb.

**LLAIS NI**

Cynhaliwyd grŵp ffocws gyda Fforwm Sirol Llais Ni, gyda'r ymgynghoriad yn cael ei gyfuno hefo un ar Gyllideb y Cyngor, a'r Llyfrgelloedd. Mynychwyd hwn gan 23 o aelodau. Treuliodd yr aelodau amser mewn 3 gweithdy yn edrych ar y 3 ymgynghoriad. Niferoedd yn bresennol oedd:
12 oed: 3 benyw, 1 gwryw
13 oed: 1 benyw, 1 gwryw
14 oed: 3 benyw, 1 gwryw
15 oed: 5 benyw, 1 gwryw
16 oed: 1 benyw, 1 gwryw
18-24 oed:  4 benyw, 1 gwryw.

Roedd y canlyniadau fel a ganlyn am wasanaethau i'r dyfodol:
Blaenoriaeth uchaf (fel fyddai'r disgwyl) oedd i Brosiect Fforymau Ieuenctid Llais Ni fod yn parhau, gyda bron bob aelod yn rhoi hwn o fewn ei ddewis cyntaf neu ail o barhad i'r dyfodol. Yr ail ddewis mwyaf poblogaidd i'r grŵp yma oedd parhau hefo'r strwythur presennol o glybiau ieuenctid ond yn rhedeg ddim ond o Fedi i ddiwedd Mawrth. Y trydydd opsiwn, a dim ond un bleidlais tu ôl i'r ail oedd cael Gweithiwr Ieuenctid ym mhob Ysgol Uwchradd, gyda 19 yn gosod hwn ymysg eu dewis. Yn llawer iawn is wedyn (yn sgorio 12,10 a 7 oedd parhau hefo'r Gweithiwr Ieuenctid Cam-ddefnydd Alcohol, Gweithiwr i Gefnodi'r Bobl Ifanc Di-waith, a chadw Gwobr Dug Caeredin gyda'r Gwasanaeth Ieuenctid. Prin oedd y gefnogaeth i ddim un o'r cynigion eraill.

Mae'r canfyddiadau gan y grŵp yma felly bron yn unfrydol gyda'r dewisiadau gan y gweddill o'r ymatebwyr, heblaw

am y blaenoriaeth amlwg i'w prosiect nhw eu hunain, sef Llais Ni.

**BLAENORIAETH POBL IFANC**

Gofynnwyd i bobl ifanc a'r oedolion am eu 4 blaenoriaeth ar gyfer dyfodol y gwasanaeth, gan eu sgorio o 1 i r, gyda 1 y pwysicaf.
Canlyniadau:

| | 1 | 2 | 3 | 4 | Cyfanswm Ymatebion |
|---|---|---|---|---|---|
| Un clwb mawr yn unig yn ardal bob Ysgol Uwchradd yn agored hyd at 4 noson yr wythnos, drwy'r flwyddyn. | 36.3% (160) | 19.5% (86) | 28.3% (125) | 15.9% (70) | 441 |
| Rhwng 15 a 18 clwb yn cyfarfod un waith yr wythnos yn y prif drefi/pentrefi | 26.0% (125) | 37.4% (180) | 19.3% (93) | 17.3% (83) | 481 |
| Prosiectau ieuenctid byr yn symud o ardal i ardal am hyd at 3 mis (ar Fws Ieuenctid neu adeilad lleol) | 12.7% (23) | 27.6% (50) | 33.7% (61) | 26.0% (47) | 181 |
| Clybiau ieuenctid gwirfoddol yn unig sy'n cael eu rhedeg gan rieni neu bobl yn y gymuned | 15.6% (42) | 32.6% (88) | 25.6% (69) | 26.3% (71) | 270 |
| Cadw clybiau presennol o fewn yr arian fydd ar gael, ac yn agor o Fedi i ddiwedd Mawrth <u>yn unig</u> | 65.3% (359) | 15.5% (85) | 9.8% (54) | 9.5% (52) | 550 |
| Un Gweithiwr Ieuenctid ar gael i gefnogi pobl ifanc 16-24 di-waith i fynd ymlaen i hyfforddiant, neu waith | 8.4% (14) | 30.5% (51) | 34.1% (57) | 26.9% (45) | 167 |
| Canolfannau Gwobr Agored ôl-ysgol yn cynnig Gwobr Dug Caeredin / OCNs / Taking up the Challenge etc. yn cael eu rhedeg gan Weithiwr Ieuenctid | 14.3% (38) | 25.9% (69) | 25.9% (69) | 33.8% (90) | 266 |
| Gwobr Dug Caeredin yn cael ei redeg yn gyfangwbl gan staff ysgolion (h.y. gan athrawon neu gymorthyddion ) | 11.2% (12) | 20.6% (22) | 33.6% (36) | 34.6% (37) | 107 |
| Un Gweithiwr Ieuenctid srol yn mynd i bob ysgol i redeg gweithgdai ar Alcohol, Cyffuriau, Addysg Rhyw a.y.y.b. | 10.0% (40) | 27.8% (111) | 35.1% (140) | 27.1% (108) | 399 |
| Gweithiwr Ieuenctid Llawn-amser ym mhob ysgol yn rhedeg cymysgedd o'r canlynol: Clwb Ieuenctid; Gwobr Dug Caeredin ôl-ysgol; clwb gwneud tystysgrifau amser cinio, lle galw-mewn amser cinio, a chefnogi pobl ifanc ros 16 i hyfforddiant neu waith. | 12.4% (48) | 21.8% (84) | 31.1% (120) | 34.7% (134) | 386 |
| Dim Clwb Ieuenctid. 1 neu 2 Hafan Ieuenctid (Youth Zone) sirol yn darparu petha fel Caffi Ieuenctid, Stiwdio Recordio, Parc Sglefrio, a threfnu Siopau Dros-Dro i fynd allan i ardaloedd llai | 14.5% (23) | 23.9% (38) | 21.4% (34) | 40.3% (64) | 159 |
| Fforwm Ieuenctid fel (Llais Ni) i ddatblygu Cyngor Ieuenctid Sirol i gyd-weithio hefo'r Cyngor Sir i benderfynu ar wasanethau i bobl ifanc | 9.6% (20) | 19.1% (40) | 22.0% (46) | 49.3% (103) | 209 |
| | | | | atebwyd | 904 |
| | | | | pasio | 0 |

Yr opsiwn mwyaf poblogaidd ydi'r un i gadw'r strwythur presennol o glybiau, ond gan bod 75.7% o ymatebwyr yn bobl ifanc sy'n mynychu clwb, efallai bod hyn yn ddisgwyliedig. Fodd bynnag, mae yna flaenoriaethau amlwg ymysg yr opsiynau eraill, sy'n rhoi llyw i lle y gellid edrych ar gyfaddawd, a lle gellir ymchwilio i ffyrdd gwahanol o gynnig

darpariaeth.

**YMGYNGHORIAD OEDOLION**

Dim ond ymgynghori ar y ddarpariaeth ar gyfer y dyfodol oedd yr holiadur oedolion. Agorwyd yr ymgynghoriad gan 146 o bobl ac fe'u cwblhawyd gan 129. Derbyniwyd ymatebion gan y canlynol:

| | |
|---|---|
| Rhieni neu Gwarchgeidwaid | 56 |
| Cynghorwyr | 0 |
| Cynghorau Cymuned | 6 |
| Staff | 41 |
| Ysgolion | 11 |
| Parnteriaid | 6 |
| Darparwyr gwasnaethau eraill i ieuenctid | 2 |
| Unigolion hefo diddordeb | 24 |

Doedd yna fawr o wahaniaeth yn y blaenoriaethau gafodd eu hadnbod gan yr oedolion na'r bobl ifanc, gyda llai, o gefnogaeth gan yr oedolion i'r Opsiwn 1af o gael un prif glwb yn nalgylch bob Ysgol Uwchradd.

**LLEOLAID AC AMSER Y DDARPARIAETH**

Pan y gofynnwyd am flaenoriaeth o ran lleoliad ac amser y gwasanaeth, eto ychydig iawn o wahaniaeth oedd yna rhwng ymatebion y bobl ifanc a'r oedolion. Roedd 696 (75.1%) o bobl ifanc ac 80% o'r oedolion yn teimlo ei bod yn bwysig i'r Gwasanaeth neu Glwb Ieuenctid fod yn agos i lle maent yn byw. Roedd 500 o bobl ifanc am weld y gwasanaeth ar gael ar ôl 7 yr hwyr ac ar noson yn ystod yr wythnos. Doedd yna nemor ddim galw am wasanaeth ar benwythnos.

Pa rai o'r canlynol yw'r mwyaf pwysig i chwi (1 = y mwyaf pwysig)

| | 1 | 2 | Response Total |
|---|---|---|---|
| Gwsanaeth Ieuenctid/clwb yn agos i lle drwi'n byw | 75.1%<br>(523)<br>Oedolion s- 80% | 24.9%<br>(173) | 696<br><br>(100) |
| Gwsanaeth Ieuenctid wedi ei leoli mewn ysgol | 45.2%<br>(42)<br>Adults 50% | 54.8%<br>(51) | 93<br><br>(12) |
| Gwasanaeth Ieuenctid/clwb ar gael yn syth ar ôl ysgol | 38.4%<br>(61) | 61.6%<br>(98) | 159<br>(11) |
| Gwasanaeth Ieuenctid/clwb yn agor o 7 o'r gloch ymlaen ar noson wythnos (Llun i Iau) | 36.8%<br>(184) | 63.2%<br>(316) | 500 |
| Gwasanaeth Ieuenctid/clwb ar gael ar nos Wener, Sadwrn, Sul | 24.3%<br>(25) | 75.7%<br>(78) | 103<br>7 |

**BETH OEDD GAN YR OEDOLION I'W DDWEUD**

"We need to hear and listen to YP. Money is wasted on services that are not needed. MENTAL health is crucial for

everyone there is NO mention of YP mental health and well being".
"Valuing and respecting the unique worth of everyone involved in helping to create a better future for all, YP are our future therefore we need to support them 100%"
" We need proper counseling service for our YP to tackle bulling, anorexia,bulimia and obesity ( obesity which I feel we highlight too much on)"
"YP people have too much pressure, they are trying to cope with school pressure- homework, exams etv, they have to deal with their hormones growing up etc who knows whats going on on their home personal family life THEY NEED EVERYTHING WE CAN GIVE THEM"
"The rights of children and young people is at the heart of everything. The right to be heard to be listened to, to take part and have choices are critical to young people's development and their participation which can make a significant difference to society."
"We need to support every need not just the "good" easy tick box YP".
"More support in rural ares as it is so difficult for YP to accsess services."
"Support and help YP to be more pro active in THEIR community, be mentored on their local Community Council it is important that local successful clubs remain open as the young people tend to walk to these, rural life is important. Whilst clubs are important D of E etc is also important to some young people. YFC is run by volunteers with strong connection with agriculture however, if youth clubs were run by volunteers consistency, weekly rota would quickly go up in smoke when they come across challenging situations."
"If the club was based in the high school then more children would take advantage of what is on offer ?"
"Youth clubs in rural villages are very important for young people who cannot travel to other sites".
"Important - our young people are the future, they need to learn new things outside a school environment mixing with different youths and adults."
"I have chosen a club open one night a week as my first choice because that is what is available for my daughter at the moment. My 15 year old daughter has special needs and she attends Clwb …. on … evenings. Without this club my daughter would be socially isolated".
"Ni all dibynnu ar rieni/gwirfoddolwyr i redeg gwasanaeth cyson, o safon uchel i bobl ifanc. All greu anghydraddoldeb rhwng ardaloedd".
"Need to have a real purpose and be linked to new technology".
"From experience young people will not travel far from the places they live only if staying with a friend. It's good to have a lot of smaller clubs keeping them as they are working through the months of September to March."
"Ma'i yn holl bwysig bod clybiau ieuenctid yn agor i'r ifanc! Fel aelod o'r staff i'r cyngor mar aelodau yn mwynhau y clybiau cyn gymaint fysa cau unrhyw clwb yn siomedigaeth drom iddynt! nid yna i arbed gwaith ein hunain ydym fel staff ond rydym yma i gefnogi'r ieuenctid ac yw gwarchod mewn cymuned gryf fel clwb."
"Youths like routine and stability ... The touring bus is not ideal nor is the limited opening hours currently ... All year round but in highest population areas seems best ... but perhaps volunteers can set up or run a bus scheme to transport those in hard to reach areas?"
" Parents shouldn't be running their children's youth clubs, they are supposed to be a chance to get away from each other. Llais Ni and d.of.e are important."

## DATBLYGU CYNLLUN BUSNES AR GYFER OPSIYNAU I'R DYFODOL

Y negesuon pwysicaf o'r ymgynghoriad yw'r canlynol:

- 87.7 (802) o bobl ifanc wedi nodi ei bod yn bwysig iddynt fod yn cael cyfle i siarad hefo Gweithiwr Ieuenctid .
- 94.9% wedi nodi ei bod yn bwysig ganddynt i gael siarad hefo'r gweithiwr yn eu dewis iaith

**Argymhelliad 1: I gael y cyswllt ehangaf posib hefo pobl ifanc mae angen i'r gwsanaeth edrych ar yr opsiwn o leoli gweithiwr llawn-amer ym mhob Ysgol Uwchradd, yn cynnig amrediad o wasanaethau a flaenoriaethwyd.**

Mae galw cryf i ran helaeth o'r ddarpariaeth Mynediad Agored (Clybiau Ieuenctid) gael ei gadw.
Mae dros 50% o bobl ifanc yn dweud eu bod yn cerdded i'w clwb a 696 o bobl ifanc yn dweud eu bod eisiau clwb yn agos i le maent yn byw. O fewn cyllidebau i'r dyfodol, efallai na fydd hwn yn opsiwn.

**Argymhelliad 2: Edrych ar strwythur lai o glybiau, yn cael eu rhedeg gan y Gweithiwr Ieuentid Ysgol a thîm llai o staff rhan-amser. Hefyd edrych ar y posibilrwydd o gefnogi pentrefi llai i redeg clybiau gwirfoddol, yn cael eu cefnogi gan y gwasanaeth ieuenctid, ond dim yn cael eu hariannu ganddo.**

Does yna nemor ddim galw am sefydlu un neu ddau Hafan Ieuenctid (Youth Zones).

**Argymhelliad 3: bod yr opsiwn yma yn cael ei ddileu.**

Mae'r ymgynghoriad wedi cadarnhau nad yw'r Bws All-ymstyn yn parhau'n flaenoriaeth gan bobl ifanc, a gyda'r gyrhaeddiad cyfyng, a chostau uchel, nid yw'r opsiwn yma'n teilyngu parhad.

**Argymhelliad 4: dileu'r opsiwn yma.**

Mae'r Gweithiwr Ieuenctid Cam-ddefnydd Alcohol yn cael ei werthfwrogi gan bobl ifanc sydd wedi ei ddefnyddio, ac mae'n cyrraedd niferoedd uchel drwy'r ysgolion.

**Argymhelliad 5: parhau i weithio ar sicrhau arian i barhau gyda'r gwaith yma, ac ymestyn y swydd i fod yn weithiwr Cam-ddefnydd Sylweddau a'r Cam-drin Rhywiol sy'n aml yn dod yn sgîl cam-ddefnydd sylweddau.**

Mae prosiect Llais Ni yn cael ei werthfawrogi gan y bobl ifanc sy'n ei fynychu, ond mae symudiadau yn awr i'r prosiect yma gael ei redeg yn gyfan-gwbl gan y trydydd sector drwy LLeisiau Lleol/ Menter Môn

**Argymhelliad 6: cefnogi'r symudiad yma a chynorthwyo gyda unrhyw geisiadau am grantiau i'r dyfodol i sicrhau parhad a datblygiad y gwaith yma i'r dyfodol.**

Gwaith Datblygu Achredu/DofE: mae'r bobl ifanc am weld y gwaith yma'n cael ei barhau drwy'r gwasaneth ieuenctid, a dim yn cael ei drosglwyddo i'r ysgolion.

**Argymhelliad 7: archwilio'r posibilrwydd o'r swydd yma ddod yn rhan o waith pob gweithiwr ieuenctid ysgol, a chyd-weithio hefo'r Wobr yn genedlaethol i ddatblygu'r ysgolion i gyd-weithio i gymeryd perchnogaeth o gynnig y Wobr.**

Gwaith Ymgysylltu a Chynnydd hefo'r bobl ifanc di-waith, neu ddim mewn addysg na hyfforddiant o 16-24. Dim wedi dod yn flaenoriaeth gan y bobl ifanc, ond efallai dim digon o bobl ifanc o'r oedfan yma wedi ymateb i'r ymgynghoriad, ac felly dim yn mynd i godi'n flaenoriaeth hefo'r oedan iau. Mae hwn, fodd bynnag, yn un o brif-flaenoriaethau Cenedlaethol i'r gwasanaeth.

**Argymhelliad 8: creu swydd hanner-amser ar gyfer Gweithiwr Ieuenctid Ymgysylltu i weithio hefo'r oedran 16-24 sy'n NEET, wedi ei ariannu drwy'r Grant Ymgysylltu. Rôl y Gweithiwr Stragegol i barhau hefo'r Prif Swyddog Ieuenctid, a pharhau i weithio ar gais i gael arian Ewropeaidd drwy gynllun AD-TRAC i greu tîm cefnogol. Adolygu'r gwaith o fewn 2 flynedd i benderfynu os oes angen ail-strwythuro eto i ariannu'r gwaith o'r cyllid craidd.**

Ail-strwythuro Staffio

I sicrhau bod y blaenoriaethau uchod yn cael eu costio bydd angen adolygu holl gytundebau staff i alluogi'r opsiynau newydd gael eu rhoi gerbron y Cynghorwyr mewn Cynllun Busnes.

**Argymhelliad 9: bod y Pwyllgor Sgrwtini yn cefnogi'r Gwasaneth Ieuenctid a'r Bwrdd Trawsnewid i adolygu holl delerau cyflogaeth staff i ddod a nw ar delerau NJC yn hytrach na chymysgedd o delerau Soulbury, JNC a Chytundeb Lleol. Adolygu bob swydd i adelwyrchu'r cynigion o newidiadau yn eu cyfrifoldebau hefo'r strwythurau newydd.**

**Byddai derbyn yr argymhellion uchod yn galluog'r gwasanaeth i brisio'n fanwl yr Opsiynau Darpariaeth y gellid eu cynnig i'r dyfodol, tra'n edrych ar yr opsiynau o doriad o 20%, 30%, 40% a 50% o dorriad fel y gofynnwyd amdano gan yr Adran Gorfforaethol.**

Sipsiwn a Theithwyr sydd angen lleiniau nawr neu dros y pum mlynedd nesaf (“angen preswyl”). Mae’r ALIST hefyd yn asesiad o’r angen am leiniau dros dro i Sipsiwn a Theithwyr sy’n pasio trwy ardal yr awdurdod lleol, ond sydd â’u prif le byw yn rhywle arall. Mae’r astudiaeth wedi cydymffurfio’n llawn â chanllawiau statudol gan Lywodraeth Cymru. Fel yr argymhellir yn y canllawiau mae Grŵp Llywio sy’n cynnwys aelodau o Gyngor Gwynedd a Chyngor Môn, swyddogion o’r Uned Polisi Cynllunio a Thai ac aelodau o blith y gymuned Sipsiwn a Theithwyr wedi bod yn cyfarfod yn rheolaidd i fonitro’r astudiaeth.

Fel sy’n ofynnol, roedd y dystiolaeth a ddefnyddiwyd yn yr asesiad yn cynnwys cyfweliadau un i un gyda Sipsiwn a Theithwyr, data eilaidd yn cynnwys cofnodion addysg a’r cyfrifiad, a chofnodion o wersylloedd anawdurdodedig sy’n digwydd yn ardal yr astudiaeth.

Gellir gweld yr argymhellion o’r adroddiad ar gyfer ardal Gwynedd a Môn yn adran 6.2 yn Atodiad 1. Mae’r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar yr argymhellion sy’n berthnasol i Ynys Môn, sef:

1. **Y dylid cwrdd â’r angen a ganfuwyd am leiniau preswyl trwy**

   - Ddyrannu safle yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn ardal Menai i gwrdd â’r angen a aseswyd am 4 o leiniau parhaol ar gyfer yr unigolion sy’n preswylio yn y safle sy’n cael ei oddef ar Ffordd Pentraeth.
   - Bod y Cyngor yn ceisio am gyllid o’r Grant Safle Sipsiwn a Theithwyr gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu safle preswyl penodol.

2. **Y dylid cwrdd â’r angen a ganfuwyd am le stopio dros dro trwy:**

   - Ddyrannu dau fan stopio dros dro ar hyd yr A55 ar Ynys Môn, un yn ardal Caergybi ac yn yng nghanol yr ynys, i ddarparu ar gyfer anghenion Sipsiwn a Theithwyr sydd wedi creu gwersylloedd anawdurdodedig yn rheolaidd yn yr ardaloedd hyn. Dylai bod digon o le ar y safle yng nghanol yr Ynys i hyd at 15 o garafannau. Dylai’r safle yng Nghaergybi roi lle i hyd at 12 o garafannau.

3. **Argymhellion ychwanegol**

   - Bod y Cyngor yn ymrwymo cyllid tuag at hwyluso’r mannau stopio dros dro y canfuwyd sydd eu yn yr Asesiad Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr.
   - Bod y Grŵp Llywio Prosiect yn parhau i gyfarfod ddwywaith y flwyddyn i sicrhau bod gwaith monitro yn parhau ac i adnabod a ddylid darparu rhagor o safleoedd preswyl neu fannau stopio dros dro i gwrdd ag unrhyw angen pellach a ganfyddir.
   - Bod y Grŵp Llywio Prosiect yn datblygu cynllun gweithredu ar y cyd sy’n cynnwys unrhyw faterion sy’n weddill o Asesiad Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr 2013 ynghyd â’r argymhellion a nodwyd yn astudiaeth 2016.

**B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros**

| eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn? |
|---|
| Ddim yn berthnasol – mae'n rhaid i'r holl Gynghorau yng Nghymru gyflwyno Asesiad Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr i Lywodraeth Cymru yn y fformat gofynnol erbyn 26 Chwefror, 2016. |

| C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith? |
|---|
| Mae gofyn statudol ar y Cyngor o dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014 i gwblhau Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr ac i ddarparu safleoedd os yw'r asesiad wedi canfod angen nad yw'n cael ei fodloni. Felly mae angen i'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo'r Adroddiad a'i gasgliadau fel y sail y bydd yn rhaid i'r Cyngor ei ddefnyddio i adnabod safleoedd i Sipsiwn a Theithwyr. |

| CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
|---|
| Mae'r Strategaeth Gorfforaethol yn nodi<br>"Mae cael rhywle da a fforddiadwy i fyw yn bwysig i'n holl ddinasyddion.<br>Ein nod yw darparu cartrefi diogel a phriodol sy'n galluogi unigolion i gael y budd mwyaf posib ohonynt trwy fynediad at swyddi, mwynderau hamdden ac addysg a thrwy hynny elwa o'r buddion cymdeithasol ac economaidd cysylltiedig."<br><br>Mae'r asesiad llety yn cyfrannu at sicrhau ein bod yn cwrdd yn briodol ag anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr. |

| D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| Gall y Cyngor geisio am grant gan Lywodraeth Cymru i ariannu'r costau cyfalaf sy'n gysylltiedig â safle preswyl. Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig ariannu 100% o gostau datblygu safle parhaol cyhyd â bod safle'n cael ei adnabod.<br>Nid oes cyllid Llywodraeth Cymru ar gael tuag at gostau lle stopio dros dro. Mae'r Cyngor wedi dyrannu cyllid am y tro yng nghyllideb gyfalaf 2016-2017 at y diben hwn. |

| DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | Dim sylwad |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio** |
| **DYDDIAD:** | **2 Chwefror, 2016** |
| **PWNC:** | **Grŵp Adolygu Cynnydd Ysgolion** |
| **AELOD(AU) PORTFFOLIO:** | **Y Cynghorydd Ken Hughes (Aelod Portffolio – Dysgu Gydol Oes)** |
| **PENNAETH GWASANAETH:** | **Delyth Molyneux (Pennaeth Gwasanaeth – Dysgu)** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD:**<br><br>**Ffôn:**<br>**E-bost:** | **Adroddiad ar y Cyd gan Delyth Molyneux (Pennaeth Gwasanaeth – Dysgu Gydol Oes) a Geraint Wyn Roberts (Swyddog Sgriwtini).**<br><br>**D/O: 01248752039**<br>**D/O: gwrce@ynysmon.gov.uk** |

## 1.0 ARGYMHELLIAD

1.1 Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r adroddiad mewn perthynas â'r gwaith parhaus a wneir gan y Grŵp Adolygu Cynnydd Ysgolion (Y Panel).

## 2.0 RHESYMAU AM YR ARGYMHELLIAD

2.1 Mae aelodau'r Panel wedi ystyried y ffordd orau o adrodd ar eu gwaith. Ar 10 Gorffennaf, 2015 casglodd Aelodau'r Panel mai'r ffordd orau ymlaen oedd cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio yn ystod y flwyddyn ddinesig a bod yr Adroddiad Sgriwtini Blynyddol yn cynnwys cyfeiriad at waith y Panel pan gaiff ei gyflwyno i Gyfarfod Blynyddol y Cyngor bob mis Mai. Er mwyn osgoi dyblygu, daeth Aelodau'r Panel i'r casgliad hefyd mai'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio ddylai gael ei ystyried fel y rhiant-bwyllgor Sgriwtini priodol oherwydd ei fod yn cael ei gefnogi gan y Swyddog Sgriwtini sydd hefyd yn cefnogi'r Panel.

## 3.0 CEFNDIR

3.1 Sefydlwyd y Grŵp Adolygu Cynnydd Ysgolion ar 21 Tachwedd 2012 gan y Pwyllgor Sgriwtini Addysg a Hamdden. Cafodd ei sefydlu yn sgil argymhellion a wnaed gan Estyn ar ansawdd y gwasanaethau addysg ar gyfer plant a phobl ifanc ar Ynys Môn. Nod y grŵp yw cynorthwyo'r Gwasanaeth Addysg i wella perfformiad ysgolion ar yr Ynys, drwy gynyddu a datblygu atebolrwydd lleol am berfformiad

| | |
|---|---|
| 13 Chwefror, 2015 | Ysfgol Gymuned Moelfre |
| 10 Mawrth, 2015 | Ysgol Uwchradd Llangefni |
| 10 Mawrth, 2015 | Ysgol Y Graig |
| 17 Mawrth, 2015 | Ysgol Uwchradd Caergybi |
| 17 Mawrth, 2015 | Ysgol Llanfawr |
| 10 Gorffennaf, 2015 | Sesiwn Gynllunio |

4.3 Mae aelodau'r Panel yn derbyn cryn dipyn o wybodaeth gyfrinachol mewn cyfarfodydd. Mae'r wybodaeth yn cynnwys data ynghylch perfformiad academaidd a phresenoldeb, cyllid a gwybodaeth staffio / rheoli. Rhennir gwybodaeth yn ddiogel gydag Aelodau'r Panel oherwydd ystyrir ei fod yn sensitif neu'n gyfrinachol ei natur.

4.4 Gwahoddir Pennaeth yr Ysgol, Cadeirydd y Llywodraethwyr a'r Ymgynghorydd Her GwE perthnasol (Gwasanaeth Gwella Ysgolion Rhanbarthol) i fynychu'r Panel i drafod safonau cyrhaeddiad, materion cynhwysiant, presenoldeb a rheoli adnoddau sy'n cynnwys agweddau ariannol a rheolaeth.

4.5 Er mwyn cofnodi materion cymerir "cofnod o benderfyniad" ym mhob cyfarfod. Mae'r cofnod hwn yn cynnwys casgliadau Aelodau'r Panel ac fe'i rhoddir yn ei dro i'r Adran Dysgu Gydol Oes i'w weithredu, yn ôl yr angen. Mae gan y Panel y disgresiwn i wahodd rhai ysgolion i ailymddangos ger ei fron os oes materion y maent yn dymuno ailymweld â nhw.

## 5.0 <u>THEMÂU A PHATRYMAU SY'N DOD I'R AMLWG</u>

5.1 Mae cynrychiolwyr ysgolion sy'n mynychu cyfarfodydd y Panel yn agored wrth adnabod unrhyw wendidau a chryfderau ym mherfformiad eu hysgolion ac yn rhoi eglurhad llawn i'r Aelodau ar y ffactorau perthnasol a allai effeithio ar berfformiad, e.e. dosbarthiadau bach a disgyblion ag anghenion addysgol arbennig.

5.2 Mae pob ysgol hyd yn hyn wedi tystiolaethu defnydd o gynlluniau datblygu sy'n mynd i'r afael â pherfformiad gwan ac sy'n blaenoriaethu camau gweithredu i wella perfformiad.

5.3 Po leiaf yw'r ysgol y mwyaf tebygol ydyw y bydd ei pherfformiad yn amrywio. Gall perfformiad amrywio'n sylweddol o flwyddyn i flwyddyn ac effeithio ar ei chategoreiddiad o fewn y model cenedlaethol – er enghraifft, os oes cynnydd yn nifer y disgyblion gydag anghenion arbennig neu yn y nifer y mae eu sgiliau iaith Gymraeg yn llai datblygedig.

5.4 Mae ffigyrau presenoldeb disgyblion ar y cyfan yn eithaf da, er bod rhai ysgolion yn cael anawsterau o ran sicrhau lefelau presenoldeb digon uchel gan bob disgybl. Yn sgil cyflwyno disgwyliadau uwch o ran presenoldeb yn Fframwaith Arolygu Estyn yn ddiweddar, mae rhai ysgolion yn wynebu her ychwanegol ac yn cael eu rhoi yn y categori 'monitro gan yr Awdurdod Lleol' o ganlyniad, er gwaethaf barnu bod yr holl agweddau eraill yn Dda.

5.5 Mae lleiafrif o ysgolion yn cael anawsterau o ran cynnal lefelau staffio cyson o ganlyniad i faterion mamolaeth ac absenoldeb arbennig, ac mae'r materion hyn yn cael mwy o effaith ar yr ysgolion llai.

5.6 Mae pob ysgol yn ymdrechu i wella eu sgiliau iaith Gymraeg ac yn ymrwymedig i wella gallu'r disgyblion yn y maes hwn.

5.7 Er nad yw'n thema gyffredinol, mynegwyd pryder gan un ysgol ynghylch lefel y cymorth a roddwyd iddi i'w galluogi i benodi aelod o staff mewn modd amserol.

5.8 Mae gan gymunedau feddwl mawr o'u hysgolion.

## 6.0 CAMAU NESAF

6.1 Yn dilyn penodi swyddog newydd i swydd "Uwch Reolwr Cynhwysiant a Safonau Ysgolion" yn ystod mis Tachwedd 2015, bydd nifer o ysgolion yn cael eu gwahodd i ymddangos gerbron y Panel rhwng mis Ionawr 2016 a Rhagfyr 2016.

6.2 Bydd rhai llinellau ymholi ychwanegol yn 2016 gan gynnwys:

- Effeithiolrwydd rôl yr Ymgynghorydd Her GwE wrth gefnogi a herio ysgolion yn y cataegorïau oren a choch i wella.
- Effeithiolrwydd gweithio 'ysgol i ysgol'.
- Y defnydd a wneir o falansau ysgolion (e.e. y rhesymeg ar gyfer y rheini sy'n cadw dros 5%)
- Recriwtio a chadw staff allweddol, gan adnabod ac annog talent ifanc.
- Effeithiolrwydd Cyrff Llywodraethu o ran gwella ysgolion ac atebolrwydd.

Awdur: Adroddiad ar y Cyd gan Delyth Molyneux **(**Pennaeth Gwasanaeth – Dysgu Gydol Oes) a Geraint Wyn Roberts (Swyddog Sgriwtini).

Dyddiad: 4 Ionawr, 2016

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR :** | **Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio** |
| **DYDDIAD:** | **2 Chwefror 2014** |
| **PWNC:** | **Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol (TYRh) – Trefniadau at y Dyfodol** |
| **AELOD(AU) PORTFFOLIO:** | **Y Cynghorydd Ieuan Williams –Portffolio Datblygu Economaidd a Chymunedol** |
| **PENNAETH GWASANAETH :** | **Dylan J. Williams** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD: Ffôn / E-bost:** | **Aled P. Davies 01248 752479 / AledDvaies@ynysmon.gov.uk** |

## 1.0 Pwrpas

1.1 I ddiweddaru'r Pwyllgor ynghylch y trefniadau rhanbarthol newydd (drwy law y Bwrdd Uchelgais Economaidd) i ddarparu cymorth a chefnogaeth Ewropeaidd i brosiectau a sefydliadau lleol, gan adael i Aelodau adolygu a rhoi barn o berspectif Ynys Môn.

## 2.0 Cefndir

2.1 Cafodd y Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ei sefydlu i gydlynu blaenoriaethau datblygu economaidd ar lefel ranbarthol mewn ymateb i'r pwysau ar gyllidebau cyhoeddus yn dilyn y dirwasgiad. Mae adfywio economaidd wedi ei nodi fel maes allweddol y mae angen dull strategol a rhagweithiol i ail-lunio gwasanaethau lleol er mwyn uchaffu budd. Mae darparu cyngor a chyfarwyddyd yr UE wedi ei adnabod fel maes penodol ble gellir dangos gwerth ychwanegol trwy gydweithredu.

2.2 Yn ystod rhaglenni ariannu 2007-2014, darparwyd cymorth technegol, cyngor ac arweiniad gan yr UE trwy gyfrwng prosiect cymorth technegol y Tîm Ewropeaidd Arbenigol (TEA) trwy Gymru gyfan. Roedd y TEA yn gweithredu ar lefel genedlaethol a lleol, gyda'r timau yn gweithio yn adrannau Llywodraeth Cymru, Timau Trydydd Sector wedi'u lleoli yn y WCVA (Timau Ewropeaidd 3 Sector), ac ym mhob un o'r 22 Awdurdod Lleol trwy Gymru.

2.3 Roedd Tîm TEA Ynys Môn yn gweithio yn y Gwasanaeth Adfywio Economaidd a Chymunedol, ond roedd yn gweithredu ar sail Gorfforaethol gan roi cyngor ac arweiniad i'r holl brosiectau a gâi eu harwain gan CSYM, yn ogystal â gwasanaethu sefydliadau allanol ar yr Ynys oedd ynghlwm â datblygu a chyflawni prosiectau a gâi eu hariannu gan Gronfeydd Strwythurol yr UE. Roedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn gweithredu fel y Corff Arweiniol ar gyfer Prosiect TEA Gogledd a Chanolbarth Cymru, oedd yn cynnwys wyth Partner o blith yr Awdurdodau Lleol.

2.4 Daeth y cynllun TEA i'w derfyn ddiwedd mis Mehefin 2015, a bu i'r swyddogaeth Ewropeaidd ddod i ben yn gyfan gwbl o fewn y CSYM. Mae gwybodaeth a sgiliau UE wedi parhau o fewn y Cyngor gan fod aelodau staff wedi symud ymlaen i swyddi gwahanol o fewn y gorfforaeth, fodd bynnag, gallai'r sgiliau hyn gael eu colli pe byddai staff yn symud ymlaen.

## 3.0 Trefniadau Cymorth yr UE 2014-2020

3.1 Fel rhan o'r paratoadau ar gyfer Rhaglenni UE 2014-2020, comisiynwyd Dr Graham Guilford i adolygu'r strwythurau a'r mecanwethiau a ddefnyddiwyd yn ystod y cylch blaenorol, ac i wneud argymhellion cadarn ar y ffordd ymlaen. O gofio natur fwy strategol y rhaglenni Ewropeaidd newydd, argymhellwyd yn gryf bod angen gwella sut caiff gweithgareddau datblygu prosiect eu cydlynu yn rhanbarthol fel y gellir eu hintegreiddio'n well a chael gwerth ychwanegol ohonynt ar lawr gwlad.

3.2 Pwysleisiwyd gwerth strwythurau rhanbarthol yng nghyswllt eu gwybodaeth leol a'u gallu i gydlynu gweithgareddau er mwyn osgoi dyblygu. Roedd yr Adolygiad yn awgrymu y dylai Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) annog a chefnogi gwaith i greu mecanweithiau cynllunio rhanbarthol credadwy i roi mewnbwn i'r 'Fframwaith Blaenoriaethu Ewropeaidd', adnabod y prif yrwyr a darparu cefnogaeth i fecanweithiau cyflawni ar ôl derbyn cymeradwyaeth.

3.3 Penderfynodd Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) y gellid cyflawni hyn orau trwy sefydlu pedwar Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol (TYRh) – Gogledd, De-orllewin, De-ddwyrain a Chanolbarth Cymru – ac mae wedi gwahodd Awdurdodau arweiniol o'r 4 rhanbarth i gyflwyno cynlluniau busnes prosiect. Yn greiddiol i'r gwaith hwn byddai angen i'r TYRh weithio gyda phartneriaethau rhanbarthol sy'n bodoli i sicrhau bod y cynigion a ddaw ymlaen yn integredig, a bod ganddynt flaenoriaethau strategol a thargedau wedi'u cytuno, ac y byddant yn cyfrannu at y weledigaeth gyffredinol ar gyfer datblygiad economaidd y rhanbarth hon.

3.4 O ran darparu cymorth technegol gan yr UE, daeth WEFO i'r casgliad fod budd-ddeilaid posib yn ddigon profiadol erbyn hyn wrth ddatblygu a chyflawni prosiectau na fyddai angen y lefel hon o gefnogaeth rhagor. O ganlyniad, ni fydd y Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol newydd yn darparu'r un lefel o gefnogaeth ag a roddwyd i brosiectau trwy'r strwythur TEA blaenorol yn nhermau cyngor technegol ynglŷn â rheoliadau'r UE, paratoi at archwiliadau a chefnogaeth i gau prosiectau.

## 4.0 Timau Ymgysylltu Rhanbarthol – Rolau a Chyfrifoldebau

4.1 Bydd y Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol mewn sefyllfa i sicrhau bod gan brosiectau arfaethedig y potensial ar gyfer gweithio'n integredig ar draws yr holl ffrydiau cyllid, ac i amlygu achosion lle mae'n bosib y byddant yn dyblygu darpariaeth sydd eisoes ar waith neu'n cael ei datblygu. Bydd gan y Tîm y gallu i weithio'n strategol ac yn llyfn gyda Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a'i ffrydiau gwaith ynghyd â sefydliadau eraill ar draws y rhanbarth i hwyluso dealltwriaeth ynghylch cynigion am arian o

gronfeydd Ewropeaidd, ac yn benodol sut maent yn cyfrannu at y weledigaeth am fuddsoddiadau pendant, integredig sy'n targedu blaenoriaethau strategol yn y rhanbarth.

4.2 Bydd y Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol yn gwneud y gweithgareddau a ganlyn:

Hyrwyddo cysylltiadau rhwng y partneriaid posib yn y gweithrediadau arfaethedig i ddatblygu cydweithio effeithiol a gwirioneddol, fel bod cynigion yn cael cefnogaeth y partneriaethau rhanbarthol;

- Sicrhau bod buddiolwyr posibl yn adnabod partneriaid a'r potensial i gael cymorth o gronfeydd Cydweithredu Tiriogaethol a chronfeydd sector yr UE, e.e. Horizon 2020, i helpu i ddangos pam mae angen arian ESI i gau bylchau ariannu;

- Nodi lle mae gan weithrediadau arfaethedig botensial am weithio integredig ar draws cronfeydd ESI a chronfeydd eraill, a nodi lle mae darpariaethau dyblyg eisoes yn bodoli neu wrthi'n cael eu datblygu;

- Adnabod bylchau a chyfleoedd ar gyfer datblygu gweithrediadau newydd a chydlynu a hwyluso'r gweithgareddau sydd raid wrthynt i fynd i'r afael â'r materion;

- Hwyluso blaenoriaeth ranbarthol i brosiectau a chyfarfodydd brocer;

- Cynorthwyo gyda rhoi prawf ar raglenni a phrosiectau Cenedlaethol i sicrhau gwerth ychwanegol ar lefel ranbarthol.

4.3 Ar ôl arwain eisoes ar y Prosiect TEA yng Ngogledd a Chanolbarth Cymru yn ystod y rhaglen flaenorol, mae Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru wedi dewis Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i gynnal y Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol yn ystod rhaglen 2014-2020. Bydd TYRh Gogledd Cymru yn cwmpasu'r 6 Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru, a bydd yn cynnwys Tîm o 4 swyddogion a fydd yn gweithio ar draws y rhanbarth. Bydd y rhaglen yn cael ei hariannu drwy Gronfeydd Cymorth Technegol yr UE, ynghyd â chyfraniadau arian cyfatebol gan y chwe Awdurdod Lleol (tua £10,500 gan bob Awdurdod yn flynyddol).

4.4 Mae'r Cynllun Busnes yn cael ei asesu ar hyn o bryd gan WEFO a disgwylir cymeradwyaeth yn ystod mis Chwefror 2016. Y gobaith yw y bydd y tîm prosiect wedi cael ei recriwtio ac yn ei le erbyn 1 Ebrill, 2016

## 5.0 Argymhelliad

5.1 I dderbyn cynnwys yr adroddiad a derbyn barn / sylwadau ar y ddarpariaeth o gyngor UE o ogwydd Ynys Môn.

